CDLl Abertawe
Swansea LDP
2023-2038

Cyngor Abertawe
Swansea Council



# Cytundeb Cyflawni Diwygiedig

## Chwefror 2025

# Cynnwys

**Rhan 1 – Cyflwyniad    Tudalen 2**

**Rhan 2 – Yr Amserlen    Tudalen 10**

**Rhan 3 – Y Cynllun Cynnwys Cymunedau    Tudalen 15**

**Atodiadau    Tudalen 31**

**Atodiad 1 – Amserlen CDLl2 Abertawe**
**Atodiad 2 – Asesu Risg**
**Atodiad 3 – Rhestr o Gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol**
**Atodiad 4 – Cynllun Cynnwys Cymunedau**
**Atodiad 5 – Adolygiad o'r Cynllun Cynnwys Cymunedau blaenorol**
**Atodiad 6 – Geirfa**
**Atodiad 7 – Llythyr Cytundeb Llywodraeth Cymru - Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig**

# Rhan 1: Cyflwyniad

## 1.1. Cefndir

1.1.1. Mabwysiadwyd Cynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLl) gan y Cyngor ar 28 Chwefror 2019. Mae’r CDLl yn nodi fframwaith cynllunio’r Cyngor ar gyfer datblygu a defnyddio tir o fewn ffiniau’r Sir am y cyfnod hyd at 1 Ionawr 2026.

1.1.2. Mae cynllun datblygu cyfoes yn rhan hanfodol o’r system a arweinir gan gynlluniau yng Nghymru. Yn unol â deddfwriaeth[1], mae’n ofynnol i’r Cyngor gynnal adolygiad o’r cynllun heb fod yn hwy na 4 blynedd o’i ddyddiad mabwysiadu, i bob pwrpas erbyn 28 Chwefror 2023 i sicrhau bod y CDLl yn gyfredol ac yn parhau i ddarparu sail gadarn ar gyfer penderfyniadau cynllunio. Yn unol â’r gofyniad hwn a chanfyddiadau Adroddiad Monitro Blynyddol 3 (2022-2023) ar gyfer y CDLl presennol, gaeth adroddiad o’r adolygiad o’r CDLl ei baratoi a ddaeth i’r casgliad bod angen adolygiad llawn o’r CDLl. Yn dilyn hynny, paratowyd Cytundeb Cyflawni ac ymgynghorwyd arno. Cafodd y Cytundeb Cyflawni ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ym mis Gorffennaf 2023 a dechreuwyd ar y gwaith o baratoi CDLl2. Mae'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig hwn yn nodi sut a phryd y cynhelir yr adolygiad llawn.

1.1.3. Bydd y Cytundeb Cyflawni diwygiedig hwn, ar ôl i Lywodraeth Cymru gytuno arno’n ffurfiol, yn disodli’r Cytundeb Cyflawni presennol. Mae’n nodi’r newid gofynnol i’r amserlen wreiddiol ar gyfer paratoi’r cynllun i adlewyrchu’r amser paratoi i gynhyrchu sylfaen dystiolaeth ar gyfer y Strategaeth a Ffefrir sydd wedi arwain at oedi wrth baratoi’r cynllun. Mae'r angen i ddiweddaru'r CC felly yn rhan o'r gofynion i gadw'r CC dan adolygiad rheolaidd. Unwaith y caiff ei gymeradwyo, rhaid i unrhyw adolygiad pellach gael ei gymeradwyo drwy benderfyniad yr ACLl a chael ei gytuno gan Lywodraeth Cymru.

## 1.2. Pwrpas y Cynllun Cyflawni (CC)

1.2.1. Mae’r Cytundeb Cyflawni (CC) Diwygiedig hwn yn rhan bwysig o’r broses o baratoi Cynllun Datblygu Lleol Newydd. Bydd y Cynllun Newydd yn cael ei adnabod fel ‘**CDLl 2**’.Yn unol â chanllawiau cenedlaethol, dylai’r CC fod yn ddatganiad cyhoeddus cryno sy’n cynnwys dwy brif ran:

- **Amserlen** o gyfnodau allweddol paratoi’r Cynllun; a
- **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS)** sy’n manylu ar sut a phryd y bydd y gymuned yn gallu cymryd rhan yn y broses o baratoi’r cynllun.

1.2.2. Mae’r CC felly yn gam allweddol ym mhroses llunio CDLl 2, gan nodi sut y bydd y broses o baratoi’r Cynllun yn cael ei datblygu gan ganolbwyntio’n benodol ar sut y bydd y Cyngor yn darparu cyfleoedd i ymgyngoreion a’r gymuned leol gymryd rhan. Bydd cyflawni CDLl 2 yn unol â’r CC yn cael ei ystyried fel rhan o’r profion o gadernid y cynllun, fel y’i diffinnir gan ddeddfwriaeth, rheoliadau a chanllawiau perthnasol Llywodraeth Cymru.

[1] Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Adran 69(1) a Rheoliad CDLl 41(1)

1.2.3. Mae'r CC yn cadarnhau sut a phryd y bydd y Cyngor yn asesu ac yn gwerthuso'r Cynllun wrth ei gynhyrchu ac yn amlygu bod CDLl 2 i'w fabwysiadu gan y Cyngor yn Rhagfyr 2027.

1.2.4. Mae'r CC wedi'i baratoi yn unol â rheoliadau a chanllawiau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Lleol) (Cymru) 2015 a Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Lleol 2020 Argraffiad 3 (Y Llawlyfr).

### 1.3. Camau yn y Broses o Gymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni

1.3.1. Ymgymerir â'r broses o ddatblygu a mabwysiadu'r Cytundeb Cyflawni dros y camau canlynol:

- Paratoi CC Drafft yn ymgorffori CIS (Y ddogfen hon)
- Cyflwyno CC Drafft i'r Cyngor Llawn i'w gymeradwyo
- Cynnal ymgynghoriad 4 wythnos ar y CC Drafft a'r Adroddiad Adolygu (dyddiadau i'w cadarnhau)
- Yn dilyn ymgynghoriad, ystyried yr ymatebion a dderbyniwyd a gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r CC Drafft
- Cyflwyno CC terfynol i'r Cyngor Llawn (dyddiad i'w gadarnhau)
- Cyflwyno'r CC i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo
- Yn dilyn cytundeb gan Lywodraeth Cymru, cyhoeddi'r CC ar wefan y Cyngor a'i osod i'w archwilio ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol (y Ganolfan Ddinesig ar hyn o bryd)
- Cyflwyno CC Diwygiedig i'r Cyngor Llawn (Ionawr 2025)
- Cyflwyno'r CC diwygiedig i Lywodraeth Cymru (31 Ionawr 2025)
- CC diwygiedig yn cael ei gytuno gan Lywodraeth Cymru (3 Chwefror 2025) a'r CC wedi'u cyhoeddi ar wefan y Cyngor a'u gosod i'w harchwilio ym mhrif swyddfeydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol.
- Yn ystod y broses o baratoi'r cynllun, adolygu cynnydd yn erbyn y CC o bryd i'w gilydd.

1.3.2. Y CC a gymeradwywyd fydd yr offeryn rheoli prosiect hanfodol i arwain y gwaith o baratoi CDLl 2 ac mae'r ACLl wedi ymrwymo i'r amserlenni a'r prosesau ymgynghori a nodir. Bydd ymlyniad i'r CC cymeradwy neu unrhyw ddiwygiad cymeradwy i'r CC yn rhan o brofion cadernid y cynllun y bydd yr Arolygydd penodedig yn eu hasesu yn ystod y cam Archwilio.

### 1.4. Paratoi CDLl 2

1.4.1. Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cynllunio (Cymru) 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor baratoi CDLl 2 yn nodi ei amcanion ar gyfer datblygu a defnyddio tir yn Abertawe dros Gyfnod CDLl 2 (2023 i 2038) a'i bolisïau i'w gweithredu. Mae'r cyfnod hwn yn caniatáu 12 mlynedd i weithredu CDLl 2 yn dilyn y mabwysiadu arfaethedig yn 2027.

1.4.2. Wrth baratoi'r CDLl, bydd angen i'r Cyngor ystyried ystod eang o ddeddfwriaeth, polisïau a mentrau eraill, ar lefelau llywodraeth Ewropeaidd, genedlaethol a lleol. O dan y Ddeddf Ymadael, bydd deddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE megis rheoliadau amgylcheddol presennol sy'n gweithredu

Cyfarwyddebau'r UE, a oedd mewn grym yn union cyn diwedd y cyfnod pontio, yn parhau i fod yn rhan o gyfraith ddomestig y DU ar ôl 31 Rhagfyr 2020 hyd nes y caiff ei diwygio gan ddeddfwriaeth newydd. O ganlyniad, maent yn parhau i fod yn berthnasol i'r broses o baratoi'r CDLl. Bydd angen i'r Cyngor hefyd ystyried ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol perthnasol.

1.4.3. Wrth baratoi CDLl 2, mae Deddf 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2015) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried:

- Polisïau cenedlaethol cyfredol (bydd y polisi cenedlaethol allweddol yn cynnwys Polisi Cynllunio Cymru (Argraffiad 12 a Nodiadau Cyngor Technegol)
- Unrhyw Gynllun Datblygu Strategol (CDY) ar gyfer yr ardal (er ei bod yn annhebygol o gael ei fabwysiadu cyn i CDLl 2 gael ei gwblhau), a Fframwaith Datblygu Cenedlaethol Cymru (Cymru'r Dyfodol – Y Cynllun Cenedlaethol 2040)
- Yr adnoddau sy'n debygol o fod ar gael ar gyfer gweithredu CDLl 2

1.4.4. Yn ogystal, bydd y gwaith o baratoi CDLl 2 yn ystyried deddfwriaeth allweddol arall gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (DLlCD, 2015), Deddf Cydraddoldeb 2010, Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a phrosesau asesu allweddol gan gynnwys Arfarniad o Gynaliadwyedd sy'n ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol ac Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

1.4.5. Yn unol â Llawlyfr CDLl Llywodraeth Cymru (Argraffiad 3, 2020), bydd y Cyngor yn anelu at gyflawni'r canlyniadau allweddol canlynol wrth baratoi CDLl 2:

- Cefnogi datblygu cynaliadwy a lleoedd o safon yn seiliedig ar Ganlyniadau Cenedlaethol Creu Lleoedd Cynaliadwy, wedi'u halinio â pholisi cenedlaethol (a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru) wedi'i integreiddio ag Arfarniad o Gynaliadwyedd/ AAS/HRA, gan gynnwys y Gymraeg a gofynion Deddf Llesiant 2015.
- Bod yn seiliedig ar gynnwys cymunedau yn gynnar, yn effeithiol ac yn ystyrlon er mwyn deall ac ystyried amrywiaeth eang o safbwyntiau, gyda'r nod o adeiladu consensws eang ar y strategaeth ofodol, polisïau a chynigion.
- Bod yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o rôl a swyddogaeth ardal(oedd) gan gynnwys y cysylltiadau swyddogaethol ag ardaloedd y tu hwnt i ffiniau gweinyddol.
- Bod yn unigryw drwy fod â chynlluniau sy'n nodi'n glir sut bydd eu hardal yn datblygu ac yn newid, gan roi sicrwydd i gymunedau, datblygwyr a busnesau.
- Gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd (gan ddefnyddio Rhagolygon Hinsawdd diweddaraf y DU, data asesiadau risg a pherygl llifogydd) a chefnogi'r broses o newid i gymdeithas carbon isel yn unol â'r targedau a'r cyllidebau lleihau carbon diweddaraf a nodir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) (Rhan 2). Bydd yn rhaid dilyn egwyddorion Creu Lleoedd, yr Hierarchaeth Trafnidiaeth Gynaliadwy a'r Hierarchaeth Ynni fel y'u nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru.
- Sicrhau bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy yn unol â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a deddfwriaeth berthnasol arall.
- Cyflawni'r hyn a fwriedir drwy gynlluniau cyflawnadwy a hyfyw, gan ystyried y gofynion seilwaith angenrheidiol, hyfywedd ariannol a ffactorau eraill y farchnad.
- Bod yn rhagweithiol ac yn ymatebol gyda'r cynlluniau'n cael eu cadw'n gyfredol ac yn hyblyg er mwyn darparu ar gyfer newid.

## 1.5. Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ymgorffori Asesiad Amgylcheddol Strategol

1.5.1. Mae datblygu cynaliadwy wrth galon proses y cynllun datblygu. Mae'n rhaid i CDLl 2 sicrhau ei fod yn cyfrannu at gyflawni nodau llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, fel sy'n ofynnol gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (WBFGA 2015).

1.5.2. Bydd angen i'r gwaith o baratoi CDLl 2 gael ei lywio gan Arfarniad o Gynaliadwyedd, gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) fel sy'n ofynnol gan Gyfarwyddeb Ewropeaidd 2001/42/EC a Rheoliadau Asesiadau Amgylcheddol o Gynlluniau a Rhaglenni (Cymru) 2004 a Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf 2015). Ar ôl cymeradwyo'r Cytundeb Cyflawni gwreiddiol, ymgynghorodd y Cyngor â'r cyrff ymgynghori statudol i benderfynu'n ffurfiol bod angen AAS ar gyfer CDLl2. Mae penderfyniad ffurfiol wedi'i gyhoeddi. O ran arfer da, mae prosesau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi'u cyfuno'n un broses ailadroddol. Mae'r broses integredig yn cael ei dilyn ar gyfer paratoi CDLl 2 fel oedd yn wir ar gyfer paratoi'r CDLl Mabwysiedig. Yn ogystal, mae deddfwriaeth arall wedi cyflwyno gofynion asesu ychwanegol y dylid rhoi sylw iddynt fel rhan o'r broses o baratoi'r cynllun gan gynnwys ystyried effeithiau ar iechyd a chydraddoldeb. O ganlyniad, cynhelir **Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig** (ISA) sy'n cyfuno'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol ag asesiadau eraill.

1.5.3. Bydd yr ISA yn sicrhau bod 5 cam gofynnol yr AAS yn cael eu hymgorffori yn y broses asesu:

**Cam A** – Gosod y cyd-destun, sefydlu gwaelodlin a phenderfynu ar Gwmpas ac Amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
**Cam B** – Datblygu a mireinio dewisiadau amgen rhesymol ac asesu effeithiau
**Cam C** – Paratoi Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd
**Cam D** – Ymgynghori ar y cynllun drafft a'r adroddiad amgylcheddol
**Cam E** – Monitro effeithiau sylweddol gweithredu'r cynllun neu'r rhaglen ar yr amgylchedd

1.5.4. Ymgynghorwyd ar yr Adroddiad Cwmpasu ar gyfer yr ISA fel rhan o'r cam Ymgynghori Cyn-adneuo a nodir yn yr amserlen.

1.5.5. Yn dilyn hyn, mae'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd/ISA sefydledig yn cael ei ddefnyddio i lywio'r asesiad o bolisïau a chynigion y CDLl 2 arfaethedig. Bydd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/ISA yn broses ailadroddol a bydd adroddiadau asesu'n cael eu paratoi i lywio pob cam allweddol o baratoi CDLl 2.

1.5.6. Ar ddechrau proses yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/ISA, bydd cyfle i randdeiliaid wneud sylwadau ar Adroddiad Cwmpasu'r ISA sy'n nodi sut yr ymgymerir â'r broses ISA. Bydd canfyddiadau gwaith yr ISA i'w gweld ar gamau allweddol yn y broses o baratoi CDLl 2; bydd adroddiadau'n cael eu paratoi, ac yn amodol ar ymgynghori â rhanddeiliaid, ochr yn ochr â'r ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir ac ymgynghoriad y CDLl 2 Adneuo. Bydd Adroddiad Terfynol yr Arfarniad o Gynaliadwyedd/ISA yn cael ei gyflwyno ynghyd â holl ddogfennau eraill CDLl 2 pan gaiff ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio. Ymgynghorir â'r Cyrff Amgylchedd

statudol ar bob cam y cyfeirir atynt uchod a bydd deialog barhaus ehangach gyda'r cyrff hyn wrth i'r broses fynd rhagddi.

1.5.7. Bydd yr ISA yn cynnwys y dogfennau camau canlynol:

- **Adroddiad Cwmpasu'r ISA** – Mae hwn yn nodi cyflwr presennol yr amgylchedd ac yn nodi'r materion cynaliadwyedd presennol yn Abertawe i ddarparu gwybodaeth sylfaenol ar gyfer asesu a monitro trwy gyfres o Amcanion a Fframwaith Cynaliadwyedd. Mae yn nodi adolygiad o gynlluniau, polisïau, rhaglenni a strategaethau perthnasol ar lefelau Ewropeaidd, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, gan nodi eu goblygiadau ar gyfer proses CDLl 2. Ymgynghorwyd ar hyn gyda chyrff ymgynghori statudol ar gyfer yr ISA fel rhan o Gyfranogiad Cyn Adneuo fel y nodir yn yr amserlen. Roedd ar gael ar y wefan yn ystod y cyfnod ymgynghori gyda chyrff allweddol eraill a hysbyswyd fel y bo'n briodol. Mae Adroddiad Cwmpasu terfynol yr ISA (Ebrill 2024) bellach wedi'i gyhoeddi.

- **Yr Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Cychwynnol integredig (ISAR)**. Bydd hwn yn ystyried effeithiau tebygol Strategaeth a Ffefrir, nodau ac amcanion CDLl 2. Bydd hefyd yn ystyried effeithiau unrhyw strategaethau amgen rhesymol. Bydd yr ISAR yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd ag ymgynghoriad y Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir) a bydd yr holl randdeiliaid yn cael cyfle i roi sylwadau ar y ddogfen.

- Yr **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd integredig (SAR)** (Adroddiad Amgylcheddol). Bydd hwn yn ystyried effeithiau tebygol fersiwn Adnau CDLl 2. Bydd yn asesu'r effeithiau cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol sy'n debygol o ddeillio o'r polisïau a'r dyraniadau a nodir yn y cynllun. Bydd y SAR yn cael ei gyhoeddi ar yr un pryd ag ymgynghoriad y Cynllun Adneuo a bydd yr holl randdeiliaid yn cael cyfle i roi sylwadau ar y ddogfen.

- Y **Datganiad Mabwysiadu**. Datganiad a gyhoeddir gan y Cyngor sy'n nodi sut yr ystyriwyd yr ISA yn y CDLl 2. Cyhoeddir y datganiad Mabwysiadu yn dilyn Mabwysiadu CDLl 2.

### 1.6. Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)

1.6.1. Mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal HRA hefyd sy'n broses asesu ar wahân i'r ISA. Bydd yr HRA yn llywio'r gwaith o baratoi strategaeth, polisïau a dyraniadau CDLl 2 a bydd yn asesu unrhyw effaith bosibl ar safle Natura 2000 dynodedig (Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA), neu safle Ramsar). Yn unol â Chyfarwyddeb Cynefinoedd 92/43/EEC lle byddai gan gynllun defnydd tir y potensial i effeithio'n sylweddol ar safle, mae angen Asesiad Priodol manwl i asesu'r effeithiau ac i ystyried addasrwydd opsiynau a mesurau lliniaru.

1.6.2. Bydd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn cael ei baratoi ar yr un pryd â CDLl2 a bydd yn cael ei gyhoeddi gyda'r Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir) â'r Cynllun Adneuo. Mae'r corff ymgynghori statudol (CNC) wedi bod yn destun i ymgysylltu drwy'r broses HRA ac ymgynghorir gyda CNC ar ganlyniad yr ymarfer sgrinio ac yn ffurfiol ar gam 2:

- **Cam 1 Sgrinio HRA** – Penderfynu a allai unrhyw un o amcanion cadwraeth unrhyw Safle Ewropeaidd gael eu heffeithio'n andwyol. Gwneir hyn ar adeg briodol o ystyried y Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir);
- **Cam 2 Asesiad Priodol** – Os yw'r sgrinio HRA yn dangos bod yr Adolygiad o'r CDLl yn debygol o gael effeithiau sylweddol, yna bydd angen lefel arall o asesiad. Bydd hyn yn asesu a allai CDLl 2 effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd un neu fwy o safleoedd Ewropeaidd naill ai ar ei ben ei hun neu ar y cyd â chynlluniau neu brosiectau eraill. Os canfyddir effeithiau andwyol posibl bydd angen i'r Asesiad Priodol ystyried mesurau lliniaru i reoli'r effeithiau a nodwyd.

### 1.7. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

1.7.1. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Gydsyniad Brenhinol ym mis Ebrill 2015. Nod y Ddeddf yw gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru mewn perthynas â'r saith nod llesiant a'r pum ffordd o weithio. Mae'r saith nod llesiant yn ymwneud â 'Chymru lewyrchus', 'Cymru gydnerth', 'Cymru iachach', 'Cymru sy'n fwy cyfartal', 'Cymru o gymunedau cydlynus', 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu' a 'Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang'. Y pum ffordd o weithio yw hirdymor, integreiddio, cynnwys, cydweithio ac atal.
1.7.2. O ystyried bod hyrwyddo datblygu cynaliadwy yn un o egwyddorion sylfaenol y CDLl, mae cysylltiadau clir rhwng CDLl 2 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw bod Cynllun Llesiant Lleol yn cael ei gynhyrchu. Bydd y gwaith o baratoi CDLl 2 yn ystyried y Cynllun Llesiant diweddaraf yn llawn a bydd yr asesiad Llesiant yn rhan o sylfaen dystiolaeth yr ISA.

### 1.8. Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd a Chydweithredu Rhanbarthol

1.8.1. Mae cydweithredu yn un o ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015). Mae hefyd yn ofynnol i ACLlau ddangos bod pob cyfle ar gyfer cydweithio a chydweithredu ar baratoi cynllun a'r sylfaen dystiolaeth wedi'u defnyddio. Mae hyn yn arbennig o berthnasol lle mae CDLlau awdurdodau cyfagos ar amserlenni paratoi tebyg a lle mae cysylltiadau trawsffiniol cryf. O ystyried y cynllun, nid yw sefyllfa baratoi ein hawdurdodau cyfagos yng Nghynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd rhanbarth De-orllewin Cymru yn ymarferol.

1.8.2. Fodd bynnag, mae gwaith trawsffiniol sylweddol yn cael ei wneud ar hyn o bryd gyda Chastell-nedd Port Talbot ac awdurdodau yn y rhanbarth ehangach (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro) ar astudiaethau sail dystiolaeth amrywiol i lywio'r CDLlau perthnasol. Mae hyn yn cynnwys comisiwn ar y cyd â CNPT i baratoi Asesiadau o'r Farchnad Dai Leol ar gyfer awdurdodau priodol ac Asesiad Twf Economaidd a Thai ar y cyd ar gyfer Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi bod yn rhan o brosiect rhanbarthol i ddiffinio maint gofodol Ardal Dwf Genedlaethol Bae Abertawe a Llanelli Cymru'r Dyfodol er mwyn llywio CDLl 2au ar gyfer yr awdurdodau perthnasol. Bydd cyfleoedd cydweithio pellach yn cael eu harchwilio gydag awdurdodau cyfagos ar waith cefndirol ac astudiaethau sail dystiolaeth fel rhan o ddatblygiad CDLl 2 ac unrhyw waith yn y dyfodol i lywio Cynllun Datblygu Strategol De-orllewin Cymru yn y dyfodol.

### 1.9. Astudiaethau Sail Dystiolaeth

1.9.1. Mae angen diweddaru'r sail dystiolaeth, gan gynnwys cynnal asesiadau sail dystiolaeth amrywiol drwy gydol y broses o baratoi  CDLl 2. Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd hyn yn cynnwys:

- Asesiadau Twf Poblogaeth, Economaidd a Thai
- Adolygiad Tir Cyflogaeth
- Asesiad o'r Farchnad Dai Leol
- Adolygiad Ardal Dwf Cenedlaethol Cymru'r Dyfodol
- Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr
- Asesiad Trafnidiaeth Strategol
- Asesiad Manwerthu
- Astudiaeth Capasiti Trefol
- Adolygiad o Ffiniau Aneddiadau, gan gynnwys asesiadau pentref
- Asesiadau Hyfywedd Ariannol
- Adolygu Gofynion Seilwaith
- Asesiad Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel
- Asesiadau Seilwaith Gwyrdd
- Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd
- Asesiad Mwynau a Gwastraff
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac adolygiad o'r Ardal Sensitif i'r Iaith Gymraeg
- Datganiadau Technegol Rhanbarthol ar gyfer Gweithgorau Agregau Rhanbarthol Gogledd Cymru a De Cymru, 2il Adolygiad (ac Atodiad B De Cymru), 2020 a
- Adroddiadau Monitro Blynyddol Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru (SWRAWP).
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Adolygiad Hierarchaeth Aneddiadau Abertawe
- Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
- Adolygiad Ardal Twf Cenedlaethol Bae Abertawe a Llanelli.

1.9.2. Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a gall gofynion sail dystiolaeth ychwanegol ddod i'r amlwg wrth i'r gwaith o adolygu'r cynllun fynd rhagddo.

## 1.10. Canllawiau Cynllunio Atodol

1.10.1. Bydd CDLl 2 yn cynnwys yr ystod angenrheidiol o bolisïau i arwain datblygiad a defnydd tir yn Abertawe dros gyfnod y cynllun ac i ddarparu'r sail ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio. Er nad yw Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) yn rhan o CDLl 2, fe'u defnyddir ar ôl i'r Cynllun gael ei fabwysiadu i ddarparu arweiniad manylach ar y modd y gellir gweithredu'r polisïau, neu gallent fod ar ffurf Cynlluniau Bro ar lefel leol. Bydd unrhyw CCA a gynhyrchir yn gyson â'r CDLl perthnasol ac wedi'i groesgyfeirio'n glir i'r polisïau a'r cynigion y mae'n eu hategu. Er enghraifft, gallai hyn fod ar safleoedd penodol, neu i gwmpasu themâu cyffredinol, fel mannau agored. Ers mabwysiadu'r CDLl presennol, mae cyfres o CCA allweddol wedi'u cynhyrchu a'u mabwysiadu yn unol â'r rhaglen CCA:

1.10.2. Bydd yr angen am CCA newydd/diwygiedig i gefnogi CDLl 2 yn cael ei ystyried fel rhan o'r broses o baratoi CDLl 2 ac mae'n debygol y caiff ei nodi fel rhan

o gam y Cynllun Cyn Adneuo (Strategaeth a Ffefrir). Pwrpas y canllawiau fydd ategu polisïau CDLl 2 ac nid disodli'r hyn sydd yn y Cynllun.

1.10.3. Bydd unrhyw CCA newydd yn cael eu paratoi i ddechrau ar ffurf drafft wrth aros i CDLl 2 gael ei fabwysiadu. Mae'n rhaid i'r CCA fod yn destun ymgynghoriad ac ymgysylltiad llawn â phartïon â diddordeb, bod yn unol â'r protocolau a amlinellir yn y CIS fel y nodir yn Rhan 3 a bydd pob ymateb yn cael ei ystyried cyn ei gwblhau. Bydd hyn yn sicrhau y gellir trin y CCA maes o law fel ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol neu yn ystod apeliadau.

### 1.11. Archwiliadau Annibynnol a Phrofion Cadernid

1.11.1. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cyflwyno ei Gynllun Datblygu Lleol Adneuo, dogfennau cysylltiedig a sylwadau i LlC er mwyn i arolygydd annibynnol a benodwyd gan Lywodraeth Cymru ystyried ei "gadernid" mewn "Archwiliad Cyhoeddus". Dehongliad syml o b'un a yw cynllun yn 'gadarn' mewn canllawiau yw bod y cynllun yn '*dangos barn dda*' ac y '*gellir ymddiried ynddo*'.

1.11.2. Bydd angen i'r ACLl ddangos bod y cynllun yn bodloni'r tri phrawf cadernid a ganlyn fel y nodir yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu:

> **Prawf 1:** A yw'r cynllun yn addas? (h.y. a yw'n glir bod y CDLl yn gyson â chynlluniau eraill?
> **Prawf 2:** A yw'r cynllun yn briodol? (h.y. a yw'r cynllun yn briodol ar gyfer yr ardal yng ngoleuni'r dystiolaeth?)
> **Prawf 3:** A fydd y cynllun yn cyflawni? (h.y. a yw'n debygol o fod yn effeithiol?)

1.11.3. Bydd yr Arolygydd yn ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd gyda'r Cynllun a'r sylwadau a dderbyniwyd yn y cyfnod Adneuo er mwyn penderfynu a yw'r Cynllun yn bodloni'r profion cadernid uchod. Yn dilyn yr archwiliad, bydd yr Arolygydd yn paratoi adroddiad, sy'n nodi ei ganfyddiadau ynghyd ag unrhyw newidiadau y mae'n eu hystyried, sy'n angenrheidiol i wneud y cynllun yn 'gadarn'. Mae casgliadau'r Arolygydd yn rhwymol ar yr awdurdod ac oni bai bod Llywodraeth Cymru yn ymyrryd, bydd yn rhaid i'r Cyngor dderbyn y newidiadau a mabwysiadu CDLl 2. Os yw'r Arolygydd o'r farn bod y cynllun yn sylfaenol ansad, ni fydd y cynllun yn cael ei argymell i'w fabwysiadu.

# Rhan 2: Yr Amserlen

## 2.1. Trosolwg

2.1.1. Mae Rhan Dau yn nodi’r Amserlen ar gyfer paratoi’r CDLl ac yn edrych ar sut i reoli’r broses. Mae’n amlygu’r rhwystrau posibl i gwblhau’r CDLl, eu heffeithiau ar gynnydd a’r mesurau lliniaru posibl a gynigir i leihau’r risgiau a nodwyd.

## 2.2. Amserlen Gryno

2.2.1. Mae’r amserlen gryno isod yn Nhabl 1 yn amlinellu prif gamau paratoi CDLl 2 a’r dyddiadau allweddol ar gyfer ymgynghori. Dangosir yr Amserlen hefyd ar ffurf siart yn Atodiad A, sy’n cynnwys esboniad o’r camau allweddol a’r gweithdrefnau i’w dilyn.

2.2.2. Rhennir Tabl 1 yn gamau Diffiniol a Dangosol:

**Diffiniol:** Y camau hynny hyd at ac yn cynnwys y cam Adneuo statudol, sydd o dan reolaeth uniongyrchol y Cyngor; gwneir pob ymdrech i gadw at y rhan hon o’r amserlen.

**Dangosol**: Y camau hynny y tu hwnt i’r cam Adneuo statudol sy’n dibynnu ar ffactorau allanol, megis nifer y sylwadau a dderbyniwyd y mae gan y Cyngor lai o reolaeth drostynt. Ar ôl i’r cyfnod ymgynghori statudol ar y Cynllun Adneuo ddod i ben a chyn cyflwyno’r cynllun, bydd y Cyngor yn diweddaru'r amserlen gydag amseriadau pendant ar gyfer gweddill y camau cynllun a gytunir gyda Llywodraeth Cymru a'u cyhoeddi o fewn 3 mis i ddiwedd y cyfnod Adneuo.

| **Tabl 1 – Amserlen** CDLl2 | | | |
|---|---|---|---|
| **Cam Diffiniol** | | **O** | **I** |
| 1 | **Cytundeb Cyflawni**<br>Ymgynghoriad Cytundeb Cyflawni Drafft, cyflwyno Cytundeb Cyflawni Terfynol i Lywodraeth Cymru i’w gymeradwyo<br><br>**Cytundeb Cyflawni Diwygiedig**<br><br>Cyflwyno CC diwygiedig i LlC a chymeradwyaeth dilynol gan LlC | **Mawrth/Ebrill 2023**<br><br><br><br>Ionawr 2025 | **Gorffennaf 2023**<br><br><br><br>Chwefror 2025 |
| 2 | **Cyfranogiad Cyn-adneuo**<br><br>Paratoi sail dystiolaeth<br><br>Galwad am Safleoedd Ymgeisiol<br><br>Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu AC | <br><br>**Ion 2023**<br><br>**Awst 2023**<br><br>**Awst 2023** | <br><br>**Ar waith**<br><br>**Hyd 2023**<br><br>**Hyd 2023** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Paratoi ac ymgysylltu ar y weledigaeth a'r amcanion ac opsiynau strategol | **Medi 2023** | **Medi 2024** |
| 3 | **Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir**<br><br>Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – Cyfnod o 6 wythnos (isafswm) | **Chwefror 2025** | **Ebrill 2025** |
| 4 | **Ymgynghoriad Cynllun Adneuo**<br><br>Ymgynghori ar y Cynllun Adneuo, ISA, HRA ac Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol Cyfnod o 6 wythnos (isafswm) | **Ebrill 2026** | **Mehefin 2026** |

| **Cam Dangosol** | | **O** | **I** |
|---|---|---|---|
| 5 | **Cyflwyno**<br>Cyflwyno'r Cynllun Adneuo a'r holl dystiolaeth ategol i LlC | **Chwefror 2027** | |
| 6 | **Archwilio**<br><br>Cyfarfod cyn-wrandawiad a Sesiynau Gwrandawiad yr Archwiliad | **Mawrth 2027**<br><br>**Mawrth 2027** | **Gorffennaf 2027**<br><br>**Gorffennaf 2027** |
| 7 | **Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd**<br>Awdurdod Cynllunio Lleol i dderbyn Adroddiad rhwymol yr Arolygydd, gwirio am wallau ffeithiol a'i Gyhoeddi ar ei wefan. | **Hydref 2027** | |
| 8 | **Mabwysiadu**<br>Y Cyngor Llawn yn mabwysiadu CDLl 2 | **Rhagfyr 2027** | |
| 9 | **Monitro ac Adolygu**<br>Cyflwyno'r Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf | **Hydref 2029** | |

## 2.3. Ffactorau a Ystyrir o fewn yr Amserlen

2.3.1. Mae'r Amserlen yn cael ei llywio'n sylfaenol gan yr angen i sicrhau y gellir mabwysiadu CDLl 2 mor hwylus â phosibl a lleihau'r cyfnod ar ôl i'r CDLl presennol ddod i ben ar 1 Ionawr 2026. Mae'r amserlen hefyd wedi rhoi sylw i ddisgwyliadau Llywodraeth Cymru y dylai cynlluniau newydd gael eu paratoi mewn 3.5 mlynedd. Yn seiliedig ar yr uchod, mae'r Cyngor wedi ceisio gosod amserlen realistig o 3 blynedd a 3 mis o'r cychwyn ym mis Gorffennaf 2023 i'r mabwysiadu ym mis Rhagfyr 2027. Byddai hyn yn golygu, ar ôl mabwysiadu, bod 11 mlynedd o gyfnod y cynllun ar ôl (h.y. hyd at 2038) sy'n unol â chanllawiau LlC.

2.3.2. Wrth ddatblygu'r amserlen, mae'r Cyngor wedi rhoi sylw i'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu ac wedi ystyried y cyfnodau ar gyfer cael Penderfyniad Aelodau, Amseriadau rhwng camau statudol, adnoddau staff a chyllidebau a'r Canllawiau Gweithdrefnol a gyhoeddwyd gan PEDW. O ran gwneud penderfyniadau gan aelodau, bydd diweddariadau ac argymhellion yn ymwneud â chynnydd y CDLl yn cael eu hadrodd i'r Aelodau cyn unrhyw gam ymgynghori statudol. Mae cyfarfodydd y Cyngor fel arfer bob 6 wythnos, fodd bynnag gellir galw cyfarfodydd y tu allan i'r amseroedd hyn ar gais y Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas. Mae Amserlen y Cytundeb Cyflawni yn ystyried y cyfnodau cyfarfod hyn ac amseroedd paratoi adroddiadau, yn ogystal ag etholiadau Llywodraeth Leol.

## 2.4. Blaenlwytho

2.4.1. Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn Rhan 3 yn nodi'r cyfleoedd ar gyfer cyfranogiad cynnar a pharhaus. Mae canllawiau cenedlaethol yn pwysleisio'r angen am Flaenlwytho. Bydd blaenlwytho yn darparu Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) sy'n ddigon manwl i ganiatáu cyfnod ymgynghori ystyrlon a fydd yn dylanwadu ar gynnwys y Cynllun Adneuo. Mae hyn yn golygu y bydd cael tystiolaeth fanwl ymlaen llaw ac yn gynnar yn y broses o lunio cynllun yn hanfodol er mwyn llywio'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth a Ffefrir a chamau dilynol y cynllun. Felly, mae'r ymgysylltu cynnar â rhanddeiliaid a gynhaliwyd rhwng Awst 2023 a Medi 2024 wedi bod yn bwysig wrth ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth.

2.4.2. Rhan allweddol o gasglu'r sail dystiolaeth gynnar oedd yr alwad am Safleoedd Ymgeisiol, a gynhaliwyd rhwng mis Awst a mis Hydref 2023. Bydd yr angen am dystiolaeth ddigonol yn berthnasol naill ai i'r rhai sy'n cynnig safleoedd newydd neu'n cefnogi cadw dyraniadau sydd heb eu gweithredu hyd yma yn CDLl 2. Mae'n amlwg bod mwy o sail dystiolaeth i gefnogi safleoedd ar y Cam Safleoedd Ymgeisiol yn hanfodol oherwydd gall lefel annigonol o wybodaeth i ddangos darpariaeth fod yn rheswm dros ddiystyru safleoedd. Bydd angen archwilio unrhyw rwystrau i ddatblygiad ymlaen llaw os yw safleoedd i gael gobaith realistig o gael eu cynnwys yn CDLl 2. Efallai bydd angen i'r Cyngor nodi safleoedd allweddol ac ardaloedd Twf i'w cynnwys yn y Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) tra bydd safleoedd posibl eraill yn parhau i gael eu gwerthuso hyd at y cam Adneuo. Yn y pen draw, bydd angen profi bod safleoedd yn addas ac yn gyflawnadwy.

2.4.3. Yn yr un modd, bydd yr ymgynghoriad ar y Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) yng Ngham 3 yn nodi ystod o dystiolaeth gefndir ategol a ddefnyddir i lywio'r strategaeth. Mae'n bwysig bod y cynllun a'r dystiolaeth hon yn cael eu llywio gan randdeiliaid yn ystod y cam ymgynghori allweddol hwn. Bydd y Cyngor yn croesawu cyfranogiad gan bawb sydd â diddordeb mewn llunio dyfodol Abertawe.

## 2.5. Adnoddau

2.5.1. Bydd swyddogion o fewn maes gwasanaeth Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol y Cyngor yn arwain y gwaith o gynhyrchu a rheoli broses CDLl 2, gan gynnwys paratoi unrhyw ddogfennau ymgynghori a rheoli camau diffiniol (1-4) proses baratoi CDLl 2 a symud ymlaen i gyflwyno CDLl 2 i Lywodraeth Cymru i'w Archwilio (Cam 5). Bydd y Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol yn gyfrifol am gyflawniad cyffredinol CDLl 2 tra bydd y Prif Swyddogion yn arwain y gwaith o reoli prosiectau o ddydd i ddydd wrth baratoi a chyflawni'r cynllun.

2.5.2. Er bod yr amser swyddogion canlynol wedi'i amserlennu i'w neilltuo i'r broses o baratoi CDLl 2, caiff hyn ei fonitro drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun a cheisir adnoddau ychwanegol yn ôl yr angen:

- Rheolwr Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol x 1 (20%)
- Prif Swyddog Creu Lleoedd X 1 (20%)
- Uwch Swyddog Creu Lleoedd X 1 (20%)
- Swyddog Creu Lleoedd X 1 (20%)
- Prif Swyddogion Cynllunio X 1 (75%)
- Uwch Swyddogion Cynllunio X 3 (50-75%)
- Swyddog Cynllunio X 1 (50-75%)
- Technegydd Cynllunio/ Graddedig X 1 (75%)

2.5.3. Mae swyddogion o feysydd gwasanaeth eraill hefyd wedi (ac yn parhau i) ymwneud ag amrywiol agweddau ar y broses o baratoi'r cynllun yn ôl yr angen gan gynnwys cyfrannu at amrywiol astudiaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, asesiadau a chymorth ymgynghori. Mae hyn yn debygol o gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gefnogaeth swyddogion Rheoli Datblygu, Tai, Datblygu Economaidd, Adfywio, Addysg, Priffyrdd, Draenio, Cadwraeth Natur, Tirwedd, Iechyd yr Amgylchedd, Gwasanaethau Democrataidd, Gwasanaethau Cyfreithiol a Chyfathrebu ac Ymgysylltu.

2.5.4. Mae cydweithio rhanbarthol yn parhau gydag awdurdodau cyfagos yn rhanbarth De-orllewin Cymru ar seiliau tystiolaeth ar y cyd a bydd parhau â'r berthynas waith agos hon yn hanfodol wrth baratoi CDLl 2. Lle bo angen, bydd ymgynghorwyr allanol yn cael eu comisiynu i gynnal astudiaethau ac asesiadau technegol penodol gyda rhai astudiaethau ar y gweill. Mae asesiad cychwynnol wedi'i wneud o'r elfennau o baratoi'r cynllun sy'n debygol o fod angen cymorth gan ymgynghorwyr allanol ac mae adnoddau ariannol wedi'u sicrhau, gyda nifer o astudiaethau sylfaen tystiolaeth wedi'u cynhyrchu hyd yma..

2.5.5. Bydd cyllideb ddigonol ar gael i symud CDLl 2 ymlaen i'w fabwysiadu o fewn yr amserlen benodedig. Disgwylir i hyn gynnwys gwariant sy'n ymwneud â holl elfennau paratoi CDLl 2 a'r Archwiliad Annibynnol.

## 2.6. Monitro ac Adolygu'r Cytundeb Cyflawni (CC)

2.6.1. Mae'r CC Diwygiedig hwn yn gweithredu fel offeryn rheoli prosiect ar gyfer cyflawni CDLl 2 i sicrhau bod yr amserlen a'r strategaeth CIS yn cael eu cyflawni. Er bod canllawiau LlC yn caniatáu cyfnod llithriant ychwanegol o 3 mis, y tu hwnt i hyn, bydd angen i'r Cyngor baratoi CC wedi'i ddiweddaru y bydd angen ei gymeradwyo gan y Cyngor cyn cytundeb LlC. Yn ogystal ag oedi estynedig, efallai y bydd angen diwygio'r Cytundeb Cyflawni os bydd yr amgylchiadau canlynol yn digwydd wrth baratoi CDLl 2:

- Newid sylweddol i'r adnoddau sydd ar gael i baratoi CDLl 2
- Newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth Ewropeaidd, y DU neu Gymru sy'n effeithio'n uniongyrchol ar y broses o baratoi CDLl 2
- Unrhyw newid arall mewn amgylchiadau a fydd yn effeithio'n sylweddol ar gyflawni CDLl 2 yn unol â'r CC
- Newidiadau sylweddol i'r Cynllun Cynnwys Cymunedau

## 2.7. Rheoli Risg

2.7.1. Mae cam diffiniol yr amserlen diwygiedig yn uchelgeisiol ond ystyrir ei fod yn gyflawnadwy yn seiliedig ar yr adnoddau disgwyliedig i'w neilltuo i broses CDLl 2. Tra bydd y Cyngor yn ceisio osgoi gwyro oddi wrth yr amserlen, mae'r Cyngor wedi nodi nifer o feysydd risg a allai arwain at wyro oddi wrth yr amserlen arfaethedig. Mae'r risgiau posibl a'r mesurau lliniaru arfaethedig i leihau risgiau wedi'u nodi yn Atodiad 2. Bydd y Cyngor yn monitro'r amserlen diwygiedig ac yn adrodd am unrhyw wyriad sylweddol (o fwy na 3 mis) i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid.

# Rhan 3: Y Cynllun Cynnwys Cymunedau

## 3.1. Trosolwg

3.1.1. Mae Rhan Tri yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r gymuned wrth baratoi CDLl 2. Mae'n hanfodol bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys ar yr adeg gywir i adeiladu consenswS a sicrhau ymgysylltiad cynnar ac effeithiol â rhanddeiliaid i lunio strategaeth ofodol, polisïau a chynigion y cynllun.

3.1.2. Mae Rheoliadau'r CDLl yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor weithio mewn partneriaeth ag amrywiaeth o randdeiliaid wrth baratoi CDLl 2 gan gynnwys y cyhoedd a chyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol (gweler Atodiad 3). Mae Tabl 2 yn nodi'r cyfnodau ymgynghori allweddol gyda manylion pellach am ymgysylltu ar bob cam yn y CIS manwl yn **Atodiad 4**, sy'n nodi pwy fydd yn ymwneud yn ffurfiol â phroses CDLl 2 a sut a phryd y bydd y cyfranogiad a'r ymgynghori yn digwydd. Yn yr un modd, mae'r CIS blaenorol wedi'i adolygu o ran y gwersi a ddysgwyd i lywio'r cynllun presennol. Mae hyn i'w weld yn **Atodiad 5**.

### 3.2. Egwyddorion Allweddol ar gyfer Ymgysylltu

3.2.1. Mae **Cynllun Corfforaethol Abertawe** '*Cyflwyno Abertawe Lwyddiannus a Chynaliadwy' (2023-28)* yn dangos pwyslais y Cyngor ar ymgysylltu'n effeithiol â chymunedau a rhanddeiliaid yn y gwaith y mae'r Cyngor yn ei wneud.

3.2.2. Mae **Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu** 2023-2028 yn ceisio sicrhau ymgynghori ac ymgysylltu effeithiol â phreswylwyr a sefydliadau partner i wella mynediad, ansawdd a darpariaeth ei wasanaethau a'r penderfyniadau y mae'n eu gwneud. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi dull y Cyngor o helpu i ymgysylltu â phreswylwyr a defnyddwyr gwasanaethau ac yn nodi'r egwyddorion allweddol ar gyfer cyflawni o ran ymgynghori ac ymgysylltu yn Abertawe.

3.2.3. Mae'r egwyddorion arweiniol allweddol ar gyfer cyflawni yn y Strategaeth Ymgynghori ac Ymgysylltu ynghylch 'Cynllunio', 'Gweithredu' a 'Gwneud Penderfyniadau, Adolygu ac Adborth' wedi llywio'r CIS a byddant yn llywio'r cynlluniau ymgysylltu manwl ar gyfer pob cam o broses CDLl 2. Datblygwyd yr egwyddorion hyn gan ddefnyddio'r **Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru a Safonau Cenedlaethol Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc Cymru**. Mae'r strategaeth hefyd yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'r Ddeddf Cydraddoldeb. Wrth ddatblygu'r trefniadau ymgynghori manwl yn y camau dilynol, bydd y tîm yn ymgysylltu â Swyddog Ymgysylltu'r Cyngor i sicrhau ymgysylltu effeithiol. Yn y pen draw, bydd angen i unrhyw ymgynghoriad ar CDLl 2 gadw at bedair **egwyddor Gunning**:

- **Dylid ymgynghori ar 'gam ffurfiannol'** – yn ymarferol, mae hyn yn golygu na ddylai'r penderfyniad fod wedi'i wneud eisoes
- **Dylai'r ymgynghoriad gynnwys digon o wybodaeth** – fel y gall ymgynghorwyr roi ystyriaeth ddeallus i'r mater

- **Mae angen rhoi digon o amser i ystyried ac ymateb** – yn ymarferol, mae hyn yn golygu bod yn rhaid rhoi digon o gyfle i ymgynghoreion gymryd rhan yn yr ymgynghoriad yn yr amser a ganiateir
- **Ystyried ymatebion yr ymgynghoriad** – mae angen i ni allu dangos sut yr ystyriwyd ymatebion yr ymgynghoriad yn ein proses benderfynu.

### 3.3. Pwy fydd yn cymryd rhan?

3.3.1. Bydd CDLl 2, unwaith y caiff ei fabwysiadu, yn arwain datblygiad a defnydd tir ar draws Cyngor Abertawe hyd at 2038. Felly, mae'r Cyngor yn croesawu ymgysylltiad gan unigolion a sefydliadau wrth lunio'r ddogfen strategaeth bwysig hon a fydd yn dod yn brif fframwaith gwneud penderfyniadau ar gyfer asesu ceisiadau cynllunio ac i arwain agenda Creu Lleoedd uchelgeisiol y Cyngor.

3.3.2. Mae Rheoliadau'r CDLl yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cynnwys a chyfranogiad cymunedol. Mae hyn yn nodi bod angen cynnwys rhai mathau o randdeiliaid ar gamau penodol o broses CDLl 2. Mae'r cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol hyn wedi'u nodi yn **Atodiad 3** ac ymgynghorir yn ei gylch yn ôl yr angen (gwelir paragraff 3.4.6). Bydd y Cyngor yn ceisio rhagori ar y gofynion hyn pan ystyrir bod hynny'n angenrheidiol. Er enghraifft, yn unol ag arfer gorau, estynnwyd yr ymgynghoriad ar adroddiad cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd y tu hwnt i'r cyrff ymgynghori statudol diffiniedig.

3.3.3. **Mae Atodiad 4** yn nodi'r amserlen fanwl ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned gan nodi pa randdeiliaid a fydd yn cymryd rhan ym mhob cam. Mae hwn yn nodi'r hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud fel lleiafswm wrth baratoi CDLl 2. Lle mae amser ac adnoddau yn caniatáu, bydd y Cyngor yn ceisio darparu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer ymgysylltu. Er mwyn gwella ymgysylltiad bydd gwefan CDLl 2 y Cyngor yn cael ei diweddaru'n rheolaidd er mwyn hysbysu rhanddeiliaid. Gwneir ymdrechion i wneud y broses ymgynghori mor hygyrch â phosibl.

3.3.4. Dylai cynnwys y gymuned drwy gydol datblygiad y CDLl fod yn broses barhaus sy'n galluogi'r gymuned leol i fod yn rhan o'r broses benderfynu; creu'r math o le maen nhw eisiau byw ynddo, ar adeg pan all hyn wneud gwahaniaeth. Mae'r CIS yn nodi sut mae'r Cyngor yn bwriadu ymgysylltu'n rhagweithiol â'r gymuned leol a rhanddeiliaid a'u cynnwys wrth baratoi CDLl 2. Bydd yn bwysig bod y bobl gywir yn cael eu cynnwys ar yr adeg gywir i sicrhau bod materion yn cael eu blaenlwytho'n effeithiol ac i sicrhau ymgysylltiad effeithiol ac ystyrlon yn y broses o lunio'r cynllun. Mae'r CIS yn disgrifio'r ffyrdd y gall y gymuned ddylanwadu ar CDLl 2 ar wahanol gamau o'r broses o baratoi'r Cynllun. Dylid darllen yr amserlen a nodir yn Rhan 2 ac Atodiad 1 yn unol â hyn. Mae'r CIS manwl i'w weld yn Atodiad 4.

3.3.5. Cydnabyddir y bydd yn fwy effeithiol ar adegau penodol i ymgysylltu ag ystod wedi'i thargedu o randdeiliaid neu gyrff cynrychioliadol. Er mwyn sicrhau bod cyfranogiad yn effeithiol, ystyrlon a hylaw, bydd digwyddiadau rhanddeiliaid yn cael eu targedu at y cyrff/cynrychiolwyr mwyaf perthnasol. Bydd pob cam ymgynghori statudol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus llawn. Bydd y Cyngor yn ceisio cynnwys y grwpiau allanol canlynol wrth baratoi CDLl 2:

## 3.4. Grwpiau Allanol

3.4.1. **Y cyhoedd, pobl a sefydliadau â diddordeb:** Bydd y Cyngor yn cynhyrchu ac yn cynnal cronfa ddata ymgynghori sy'n cynnwys unigolion a sefydliadau â diddordeb sydd wedi gofyn am gael gwybod am broses CDLl 2 (gweler paragraff 3.17). Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn creu lleoedd a datblygu cynaliadwy yn Abertawe yn y dyfodol gael eu hychwanegu at y gronfa ddata. Rydym yn annog y sawl sydd â diddordeb i gofrestru eu manylion fel y gallant gael yr wybodaeth ddiweddaraf am ymgynghoriadau perthnasol sydd i ddod. Gwneir ymdrechion hefyd i ymgysylltu â chymunedau, busnesau a sefydliadau lleol i sicrhau ystod eang o adborth. Mae rhestr o'r rhain wedi'i choladu gan ddefnyddio manylion cyswllt a geir ar-lein a fydd yn cael eu hysbysu i weld a ydynt yn dymuno i ni gysylltu â nhw fel rhan o gamau ymgynghori yn y dyfodol. Nid yw hon yn rhestr gyflawn a gall unrhyw grŵp nad yw wedi'i gynnwys yn Atodiad 3 ymuno â'r gronfa ddata ymgynghori.

3.4.2. **Cynghorau Cymuned:** Bydd y rhwydwaith bresennol o Gynghorau Cymuned ar draws Abertawe yn gyswllt allweddol ar gyfer lledaenu gwybodaeth yn eu hardal leol ac yn ddolen i'w hardal leol. Yn unol â hynny, ymgynghorir â'r Cynghorau Cymuned ar bob cam allweddol a thrwy eu sianeli cyfathrebu byddant yn cynorthwyo'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth o CDLl 2 i'w hetholwyr lleol. Bydd y Cynghorau Cymuned yn cynghori ar y dyheadau defnydd tir sydd ganddynt ar gyfer eu cymuned felly fe'u hanogir i gyfrannu at y camau ymgynghori. Dylid cyfeirio'n benodol at y camau ymgynghori er mwyn sicrhau y gellir rhaglennu cyfarfodydd yn gynnar er mwyn sicrhau y gellir cyflwyno sylwadau o fewn y cyfnod penodedig.

3.4.3. **Fforwm Datblygwyr Cyngor Abertawe:** Mae'r Fforwm Datblygwyr yn grŵp ymgysylltu allweddol wrth gyflawni agenda Creu Lleoedd uchelgeisiol y Cyngor. Bydd y fforwm sy'n cynnwys datblygwyr lleol a rhanbarthol, adeiladwyr tai, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac asiantau cynllunio yn Ased pwysig gan ei fod yn dod â grwpiau sy'n ymwneud â datblygu yn Abertawe ynghyd â llunwyr polisïau. Bydd y Cyngor yn ymgysylltu â'r Fforwm Datblygwyr i lunio'r strategaeth ar gyfer y dyfodol ond hefyd i sicrhau bod amseriad a chyfnodau'r safleoedd yn gadarn ac yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf.

3.4.4. **Grwpiau Partneriaeth:** Mae amrywiaeth o grwpiau Partneriaeth ar draws Abertawe a fydd â diddordeb posibl mewn cyfrannu at lunio cynllun defnydd tir y dyfodol. Gallant weithredu fel pwynt cyswllt unigol ar gyfer grwpiau o bobl ac, o ganlyniad, gallant chwarae rhan bwysig wrth godi ymwybyddiaeth o CDLl 2, ymgysylltu â'r gymuned ehangach a helpu i ledaenu gwybodaeth. Grŵp partneriaeth allweddol y bydd y Cyngor yn ymgysylltu ag ef yw **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe** i sicrhau bod CDLl 2 yn cyd-fynd â'r Cynllun Llesiant Lleol. Mae'r BGC yn cwmpasu ystod o bartïon â diddordeb a all gyfrannu at CDLl 2 sy'n dod i'r amlwg a byddant yn cymryd rhan weithredol wrth baratoi'r cynllun.

3.4.5. **Busnesau a Pherchnogion Tir:** Gwneir ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned fusnes ar adegau allweddol ac anogir busnesau sydd â diddordeb i gofrestru eu manylion ar Gronfa Ddata'r CDLl. Rhan allweddol o broses CDLl 2 yw y Galw am

Safleoedd Ymgeisiol. Felly mae perchnogion tir ar draws Abertawe a allai fod â diddordeb yn eu tir yn cael ei ystyried ar gyfer datblygiad wedi cael y cyfle i gyflwyno safleoedd fel rhan o'r broses. Gwnaeth hwn yn nodi'r trothwy ar gyfer safleoedd i'w hystyried a lefel y wybodaeth oedd ei hangen. Dylai unrhyw safleoedd arfaethedig fod wedi cael eu cyflwyno yn ystod y cam Galw am Safleoedd.

3.4.6. **Cyrff Ymgynghori:** Bydd y cyrff ymgynghori Penodol a Chyffredinol yn Atodiad 3 yn cael eu cynnwys drwy gydol proses CDLl 2 ym mhob un o'r camau ymgynghori ffurfiol ac yn anffurfiol fel y bo'n briodol. Mae'r cyrff penodol yn cynnwys Llywodraeth Cymru a'r cyrff hynny sydd â swyddogaethau penodol sy'n berthnasol i ardal CDLl 2 (e.e. Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe a Dŵr Cymru Welsh Water). Mae'n rhaid i'r awdurdod hefyd ymgynghori ag Adrannau Llywodraeth y DU lle mae'n ymddangos bod agweddau ar y cynllun yn effeithio ar eu buddiannau a'r hyn y mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Yn yr un modd, mae'r broses AAS yn ei gwneud yn ofynnol i ymgynghori â 'chyrff Ymgynghori Amgylcheddol' penodol ar adegau allweddol. Y rhain yw Cyfoeth Naturiol Cymru a CADW. Yn ogystal, gall y Cyngor hefyd gynnwys, yn ôl ei ddisgresiwn, 'unrhyw bersonau neu grwpiau eraill a allai fod â diddordeb mewn materion sy'n ymwneud â datblygu yn yr ardal'. Mae'r rhain wedi'u grwpio o dan 'Cyrff Ymgynghori Eraill' ac wedi'u rhestru yn **Atodiad 3** a byddwn yn ymgynghori â nhw fel yr ystyrir yn briodol.

3.4.7. **Rhanddeiliaid Nas Clywir yn Aml:** Rhanddeiliaid nas clywir yn aml yw grwpiau neu unigolion sydd wedi bod yn absennol yn draddodiadol yn y broses o baratoi cynllun. Bydd angen ymdrech ychwanegol i sicrhau bod y rhanddeiliaid hyn yn cael eu cynrychioli er bod hynny o fewn terfynau'r cyfnodau cyfranogiad/ ymgynghori penodedig a'r terfynau adnoddau. Mae'r grwpiau hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Pobl ifanc a phlant
- Pobl ag anableddau
- Pobl hŷn
- Pobl ag anawsterau dysgu
- Pobl ddigartref
- Lleiafrifoedd ethnig
- Sipsiwn a Theithwyr

3.4.8. Mae grwpiau ymgynghori allweddol sy'n cynrychioli rhai o'r buddiannau uchod wedi'u nodi, a bydd y tîm yn gweithio gyda chysylltiadau perthnasol y Cyngor i nodi'r mathau mwyaf priodol o ymgysylltu â'r grwpiau hyn fel y bo'n briodol. E.e. gellir defnyddio cyfryngwyr y gellir ymddiried ynddynt, fel y bo'n briodol, er mwyn cael barn grwpiau neu unigolion penodol nad oes ganddynt yr hyder i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r broses.

## 3.5. O fewn y cyngor

3.5.1. Bydd yn bwysig bod CDLl 2 yn sicrhau ymgysylltiad effeithiol gan swyddogion ar draws yr Awdurdod gan y bydd y strategaeth defnydd tir yn cyflawni nodau ac amcanion ystod o adrannau'r Cyngor. Yn yr un modd, bydd ymgysylltiad gan aelodau etholedig yn hollbwysig.

3.5.2. **Cynghorwyr/Aelodau Etholedig:** Mae aelodau etholedig Cyngor Abertawe yn rhanddeiliaid hollbwysig wrth baratoi CDLl2 oherwydd eu bod yn cynrychioli unigolion a chymunedau yn eu ward. Felly, bydd aelodau yn chwarae rhan hanfodol yn CDLl 2 trwy ddarparu gwybodaeth i drigolion lleol a hysbysu'r tîm ynghylch materion a chyfleoedd yn eu hardal sydd angen sylw fel rhan o'r cynllun. Yn ehangach mae aelodau'n cynrychioli buddiannau ehangach y cyhoedd gan eu bod yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion CDLl 2 sy'n mynd y tu hwnt i lefel ward ac sy'n effeithio ar y Sir gyfan. Ymgymerir ag ymgysylltu ag aelodau drwy gydol y broses o baratoi CDLl 2 a fydd yn cynnwys briffio fel y bo'n briodol ar faterion trwy seminarau aelodau fel y bo'n briodol ar adegau allweddol, cyflwyno camau statudol i'r Cyngor a hysbysir hyn cyn pob cam ymgynghori. Bydd yr Aelod Cabinet (Cyng. David Hopkins) sy'n gyfrifol am y Cynllun Datblygu Lleol yn chwarae rhan fanwl yn y gwaith o baratoi CDLl 2.

3.5.3. **Grwpiau Ymgysylltu Aelodau'r CDLl (GYA)**: Bydd Aelodau Perthnasol yn cael eu cynnull yn ddigon rheolaidd i roi cyfle i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar faterion sy'n ymwneud â CDLl 2. Mae cyfansoddiad y grŵp yn cynnwys aelodau Cabinet a bydd ganddo gynrychiolaeth o bob plaid. Mae hyn wedi hwyluso ymgysylltiad parhaus ag uwch aelodau a swyddogion drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun ac wedi rhoi cyfleoedd i hysbysu ac ymgynghori â Chynghorwyr ar wahanol gamau o baratoi CDLl2 ac wedi darparu seinfwrdd ar gyfer materion sy'n codi. Mae'r grŵp wedi bod yn ymwneud yn effeithiol hyd yma â dau gam pwysig wrth baratoi'r cynllun, sef llunio Gweledigaeth, Amcanion, ac Opsiynau Strategol, yn ogystal â'r Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir). Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r grŵp ar adegau allweddol yn ystod y broses o baratoi CDLl2.

3.5.4. **Tîm Polisi Corfforaethol:** Bydd swyddogion sy'n arwain ar CDLl 2 yn gweithio'n agos gyda Thîm Polisi Corfforaethol y Cyngor sy'n cefnogi cyflwyno, cydlynu a gweinyddu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn arwain cyfraniad y Cyngor i'r Cynllun Llesiant Lleol.

3.5.5. **Craffu:** Rheolir yr holl weithgarwch craffu o fewn y Cyngor gan Bwyllgor y Rhaglen Graffu. Lle bo angen, bydd y Panel Perfformiad Datblygu ac Adfywio yn monitro'r gwaith o baratoi'r CDLl.

3.5.6. **Swyddogion:** Bydd swyddogion o ystod o feysydd gwasanaeth yn darparu mewnbwn allweddol i ddatblygiad CDLl 2. Mae ymgysylltu allweddol wedi (ac yn parhau i) digwydd ag adrannau drwy gydol y broses gan gynnwys gweithdai ymgysylltu â swyddogion. Cynigir y bydd gweithgor swyddogion CDLl 2 yn cael ei sefydlu i hwyluso'r broses hon.

## 3.6. Dadansoddiad o Strategaeth CIS Flaenorol

3.6.1. Mae'r Cyngor wedi adolygu'r Cynllun Cynnwys Cymunedau blaenorol i lywio datblygiad y Cynllun Cynnwys Cymunedau ar gyfer CDLl 2. Yn benodol, o ystyried y

gwelliannau mewn technoleg a'r profiad a ddysgwyd o bandemig COVID19 o ran newid arferion gwaith, bydd CDLl 2 yn awr yn dibynnu ar fwy o ddefnydd o strategaeth â ffocws mwy digidol ar gyfer ymgysylltu er mwyn lledaenu gwybodaeth a fydd yn cyrraedd cynulleidfa ehangach ac a fydd yn canolbwyntio ar gyfleoedd i ymgysylltu'n well â grwpiau nas clywir yn aml. Yn ogystal, ystyrir y gellir gwneud gwelliannau i wneud y tudalennau gwe yn symlach ac yn fwy hygyrch, defnyddio meddalwedd ymgynghori bwrpasol i helpu i hwyluso cyflwyno sylwadau yn electronig a hefyd defnyddio fersiynau Hawdd eu Darllen o ddogfennau allweddol i wneud dogfennau ymgynghori yn fwy hygyrch i ddemograffeg ehangach o randdeiliaid. Mae'r adolygiad hwn wedi'i nodi yn Atodiad 5 sy'n nodi agweddau a lwyddodd ac yn nodi meysydd y gellid eu gwella.

## 3.7. Dulliau Ymgysylltu

3.7.1. Mae nifer fawr o wahanol ddulliau ymgynghori ac mae'n bwysig bod y rhai cywir yn cael eu defnyddio. Mae'r strategaeth yn nodi'r dulliau hynny o ymgysylltu ac ar ba gam o CDLl 2 y cânt eu defnyddio. Wrth gyflwyno'r Cynllun Cynnwys Cymunedau bydd tîm CDLl 2 yn defnyddio'r pecyn cymorth ymgynghori i helpu i hwyluso'r cyfleoedd mwyaf priodol a bydd yn cysylltu â Chydlynydd Ymgynghori'r Cyngor wrth gynllunio ymgynghoriadau'r dyfodol yn fanwl. Bydd manylion yr ymgynghoriadau CDLl 2 sy'n cael eu datblygu yn cael eu cyhoeddi'n eang i gyrraedd cymaint o'r gymuned â phosibl, i hysbysu pobl ac i nodi sut y gallant gymryd rhan. Gall dulliau ymgysylltu gynnwys:

- Cyswllt uniongyrchol (trwy e-bost neu lythyr yn ddelfrydol)
- Gwybodaeth CDLl 2 wedi'i nodi ar dudalennau gwe CDLl 2
- Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig trwy seminarau i aelodau
- Cyfarfodydd Cyhoeddus/Cyfarfodydd Rhithwir
- Datganiadau i'r wasg
- Cynhyrchu fersiynau Hawdd eu Darllen o ddeunydd ymgynghori
- Cyfryngau Cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter)
- Sesiynau galw heibio
- Arolygon
- Grwpiau Ffocws
- Gweithdai
- Adneuo dogfennau ym mhrif swyddfeydd y Cyngor, llyfrgelloedd, Canolfan Gyswllt Cwsmeriaid lle bo'n briodol
- Arddangosfeydd cyhoeddus
- Gweminarau
- Arddangos Hysbysiadau Safle ynghylch dyraniadau tir arfaethedig yn ystod y cam Ymgynghori ar Adneuo
- • Ystafell ymgynghori gyhoeddus rithwir
- • Fideo cryno (i'w gynhyrchu gan Gymorth Cynllunio Cymru)

3.7.2. Mae'n amlwg o'r adolygiad o'r CIS blaenorol bod angen i ymgysylltu ystyried anghenion unigol y rhai sydd am gymryd rhan. Felly, bydd y Cyngor yn ceisio cael y cydbwysedd priodol o ystyried amser ac adnoddau swyddogion rhwng ymgysylltu personol ochr yn ochr â rhith ymgysylltu a bydd yn gwneud y mwyaf o ddosbarthu

gwybodaeth yn ddigidol ond bydd hefyd yn cyflwyno gwybodaeth ymgynghori ar bapur fel y bo'n briodol.

### 3.8. Rhanddeiliaid – Yr hyn yr ydym yn ei ddisgwyl gennych

3.8.1. Er mwyn sicrhau y gellir ystyried sylwadau rhanddeiliaid fel rhan o gamau ymgynghori allweddol, mae'n rhaid iddynt gael eu 'gwneud yn briodol'. Hynny yw, mae'n rhaid eu cyflwyno o fewn yr amserlenni a ragnodwyd. Mae Tabl 2 isod a'r CIS yn Atodiad 4 yn nodi'r amserlenni ar gyfer cynnal camau ymgynghori allweddol a lle byddwn yn ceisio eich cyfranogiad gyda manylion penodol yn cael eu cyhoeddi yn agos at amser yr ymgynghoriad arfaethedig. Bydd sicrhau bod sylwadau'n cael eu cyflwyno'n briodol yn allweddol i sicrhau y gellir ystyried eich barn.

3.8.2. Dylid ystyried ymatebion yn ofalus i sicrhau eu bod yn codi materion dilys y gall CDLl 2 a'r system Gynllunio ymdrin â nhw. Dylid darparu gwybodaeth mewn fformat clir a hygyrch ac ystyried unrhyw canllaw a gynhyrchir gan y Cyngor i gynorthwyo wrth gyflwyno sylwadau.

3.8.3. Ni ellir ymestyn yr amserlenni ymgynghori i ystyried cylchoedd cyfarfod grwpiau cymunedol. Ar y camau statudol nid oes gan y Cyngor yr hyblygrwydd i newid y cyfnodau ymgynghori o'r rhai a nodir yn y Rheoliadau/y manylir arnynt yn y CIS.

3.8.4. Pan fydd cyrff ymgynghori'n nodi bylchau yn y sail dystiolaeth neu'r wybodaeth a ddarperir, dylent geisio cefnogi'r Cyngor i wella'r sail dystiolaeth er mwyn cyflawni CDLl 2 'cadarn'.

3.8.5. Mae hefyd yn bwysig eich bod yn hysbysu'r Tîm Cynllunio Strategol os bydd eich manylion cyswllt yn newid yn ystod proses CDLl 2 er mwyn i swyddogion roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am unrhyw gynnydd. O ran safleoedd ymgeisiol, mae'n bosibl y bydd newidiadau i berchnogaeth tir hefyd yn digwydd yn ystod y broses, ac mae'n hollbwysig bod y rhain yn cael eu diweddaru drwy wefan y Cyngor er mwyn sicrhau nad oes oedi o ran gwneud cynnydd.

3.8.6. Yn olaf, er y gall materion CDLl fod yn gynhyrfiol, gofynnwn i swyddogion gael eu trin â pharch.

### 3.9. Yr hyn y gall rhanddeiliaid ei ddisgwyl gan y Cyngor

3.9.1. Bydd y Cyngor yn ceisio cadw at yr amserlenni cyhoeddedig yn y CC a sicrhau bod yr holl wybodaeth ar gael yn brydlon. Yn yr achos hwn, bydd yn ceisio hwyluso ymgysylltiad â'r bobl iawn ar yr adeg gywir wrth baratoi CDLl 2 i sicrhau ymgynghori ystyrlon ac effeithiol a defnydd effeithlon o adnoddau. Tra bydd y Cyngor yn gwneud popeth o fewn ei allu i gydymffurfio â'r ymrwymiadau a nodir yn y CC, efallai y bydd angen bod yn hyblyg ac addasu i amgylchiadau ar y pryd. Bydd proses CIS CDLl 2 yn hwyluso cyfranogiad cymunedol cynnar ac effeithiol. Defnyddir amrywiaeth o ddulliau i roi cyhoeddusrwydd i gamau ymgynghori a rhoi rhybudd cynnar o gamau ymgynghori ac i ddarparu diweddariadau cymunedol er mwyn

ymgysylltu'n effeithiol drwy gydol y broses. Lle gwahoddwyd sylwadau ar ddogfennau penodol, bydd yn glir sut yr ystyrir sylwadau a bydd rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu pan fydd adborth ar gael. Er mwyn hwyluso ymgysylltu yn ystod cyfnodau ymgynghori allweddol, bydd system ryngweithiol ar y we i gofnodi sylwadau yn cael ei rhoi ar waith.

### 3.10. Consensws

3.10.1. Bydd y CIS yn ceisio adeiladu consensws trwy ymgysylltu ystyrlon. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n bwysig bod cyfranogwyr yn cael eu hysbysu'n llawn trwy gydol y broses o'r cychwyn cyntaf. Mae ymgysylltu effeithiol yn golygu defnyddio dulliau amrywiol, gosod nodau realistig a hwyluso trafodaeth agored a gonest. Fodd bynnag, mae'r Cyngor yn cydnabod efallai na cheir consensws ym mhob sefyllfa. Mae'n hanfodol, felly, bod y broses gwneud penderfyniadau yn dryloyw lle mae gan bob penderfyniad a wneir lwybr archwilio clir fel bod y rhai a allai anghytuno yn cael sicrwydd bod eu barn wedi'i hystyried a bod y penderfyniadau wedi'u gwneud mewn modd gwybodus a chytbwys.

### 3.11. Ymdrin â Sylwadau ac Adborth

3.11.1. Bydd y Cyngor yn ceisio darparu adborth ar-lein cyn gynted â phosibl ar ganlyniad ymgysylltu ac ymgynghori drwy gydol proses CDLl 2. Cynigir y bydd meddalwedd ymgynghori newydd yn ei le ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad. Bydd sylwadau a dderbynnir o fewn yr amserlenni priodol yn cael eu trin yn ystod pob cam o baratoi'r cynllun yn y modd a ganlyn:

- Cofnodi'r sylw a rhoi rhif sylwadau iddo;
- Anfon cadarnhad at y sawl sy'n cyflwyno sylw wrth dderbyn y sylw gyda manylion y camau nesaf yn y broses;
- Ystyried pob sylw dilys, llunio ymateb; a
- Paratoi adroddiad ymgynghori a fydd yn cael ei gyhoeddi ar amser priodol yn cynnwys rhestr o sylwadau ac ymateb y Cyngor i'r rheiny ynghyd ag unrhyw gamau gweithredu arfaethedig sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r sylw.

### 3.12. Sylwadau Hwyr

3.12.1. Mae proses CDLl 2 yn amodol ar gyfnodau ymgynghori/cyfranogi statudol ac anstatudol, sydd â chyfnodau diffiniedig ar gyfer cyflwyno sylwadau. Er mwyn i ymatebion gael eu 'gwneud yn briodol' ac felly eu hystyried, mae angen eu derbyn erbyn y dyddiad cau penodedig ar gyfer y cyfnodau ymgynghori hyn. Ni ystyrir unrhyw sylwadau/cyflwyniadau a gyflwynir ar ôl y dyddiadau cau yn rhai sydd 'wedi'u gwneud yn briodol' at ddibenion Archwilio CDLl 2. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y broses yn deg a chyfiawn i bawb sy'n ymwneud â'r broses.

### 3.13. Proses Gwneud Penderfyniadau'r Cyngor a chyfranogiad Aelodau Etholedig Lleol

3.13.1. Cyn y camau ymgynghori cyhoeddus statudol, bydd penderfyniadau allweddol ar ddogfennau CDLl 2 yn cael eu gwneud gan y Cyngor Llawn yn dilyn cyflwyniad os yw'n briodol i'r Cabinet gyda chyfarfodydd yn cael eu cynnal bob pedair wythnos.

## 3.14. Yr Iaith Gymraeg ac Ymgysylltu Dwyieithog

3.14.1. Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Gynghorau i'w gwneud yn haws i bobl ddefnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi strategaeth 5 mlynedd ar gyfer y Gymraeg a bydd gofynion Safonau'r Gymraeg yn cael eu cynnal ar bob cam o CDLl 2. Bydd ymgysylltu dwyieithog yn cael ei gynnal yn y ffyrdd canlynol:

- Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Lle derbynnir gohebiaeth yn Gymraeg a bod angen ateb, anfonir yr ateb yn Gymraeg;
- Bydd yr holl lythyrau ymgynghori, ffurflenni sylwadau, hysbysiadau cyhoeddus (gan gynnwys hysbysiadau safle) a chylchlythyrau yn ddwyieithog;
- Bydd tudalennau ar wefan CDLl2 a negeseuon cyfryngau cymdeithasol a gyhoeddir ar twitter yn ddwyieithog;
- Bydd cyfarfodydd cyhoeddus yn cael eu cynnal yn ddwyieithog pan fydd cais wedi'i wneud o flaen llaw. Mae angen hysbysiad ymlaen llaw er mwyn darparu gwasanaeth cyfieithu; ac
- Unwaith y bydd CDLl 2 wedi'i fabwysiadu, bydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.

3.14.2. Bydd CDLl 2 yn destun Arfarniad Cynaliadwyedd integredig a fydd yn cynnwys effaith y cynllun ar yr Iaith Gymraeg fel rhan o hyn.

## 3.15. Cyfnodau Allweddol CDLl 2 a chyfleoedd ar gyfer Ymgysylltu

3.15.1. Mae Rheoliadau'r CDLl yn nodi'r gofynion cyfreithiol ar gyfer cyfranogiad ac ymgynghoriad cyhoeddus wrth baratoi CDLl2. Amlygir yr amserlen fanwl ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a'r dulliau ymgysylltu arfaethedig ar gyfer y camau allweddol yn y broses o baratoi'r CDLl yn Atodiad 4. Nid yw'r rhestr ei hun yn hollgynhwysfawr ac efallai bod angen ei haddasu i sicrhau bod y gymuned a'r rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn briodol ym mhob cam. Mae'r adran isod yn rhoi crynodeb o'r camau allweddol a phryd y gall rhanddeiliaid gymryd rhan. Bydd gwybodaeth yn cael ei diweddaru'n gyson ar dudalennau gwe CDLl 2 ac anfonir hysbysiadau am ymgynghoriadau trwy e-bost at randdeiliaid sydd wedi'u cofrestru ar gronfa ddata'r CDLl.

| Tabl 2 – Crynodeb o Gamau a Chyfleoedd ar gyfer Ymgysylltu | | |
|---|---|---|
| **Cam Paratoi CDLl 2** | | **Sut alla i gymryd rhan** |
| **1** | **Cytundeb Cyflawni (Rheoliad 9)**<br><br>Bydd y CC yn gweithredu fel offeryn rheoli prosiect i arwain y gwaith o baratoi CDLl 2. Mae'n cynnwys yr amserlen ar gyfer ei baratoi a sut a phryd y gall rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses. | Bydd cyfleoedd i gymryd rhan fel rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar y CC Drafft ym mis **Mawrth/Ebrill 2023**. |
| **2** | **Cyfranogiad Cyn Adneuo (Rheoliad 14)**<br><br>Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r cynllun bydd angen i'r Cyngor baratoi sail dystiolaeth gynhwysfawr i ddeall y materion amgylcheddol, economaidd a chymdeithasol allweddol sy'n bodoli yn Abertawe. Gwnaeth y Cyngor paratoi Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yr ymgynghorwyd arno gyda chyrff ymgynghori statudol.<br><br>Rhan allweddol o'r sail dystiolaeth gychwynnol yw gwahodd datblygwyr a thirfeddianwyr i gyflwyno safleoedd ymgeisiol i'w cynnwys o bosibl yn y cynllun.<br><br>Er mwyn llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) bydd angen paratoi gweledigaeth a set o amcanion ac opsiynau twf strategol i arwain y cynllun. Cafwyd ymgynghoriad ymgysylltu anffurfiol a rhanddeiliad allweddol i ddatblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion a'r Opsiynau<br><br>**Bydd hyn yn rhoi cyfle cynnar i drafod cyn i'r Strategaeth a Ffefrir gael ei pharatoi** | **Bydd y cyfleoedd i gymryd rhan fel a ganlyn:**<br><br>Ymgynghorwyd â chyrff ymgynghori statudol yn Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd yn ystod **Awst – Hydref 2023**<br><br>Galwad am Safleoedd Ymgeisiol gan yr holl randdeiliaid ym mis **Awst-Hydref 2023**<br><br>Ymgynghoriad anffurfiol ar Weledigaeth ac Amcanion Drafft ar Opsiynau Strategol Drafft wedi ei chynnal **Medi 2023** i **Medi 2024** |
| **3** | **Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Rheoliad 15-16)** | **Bydd y cyfleoedd i gymryd rhan fel a ganlyn:** |

| | | |
|---|---|---|
| | Bydd y cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad statudol ar y Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) a lleoliadau strategol ar gyfer datblygiadau newydd a'r Adroddiad ISA ategol (cyfnod statudol o 6 wythnos). Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer polisïau, cynigion a dyraniadau manylach a fydd yn cael eu cynnwys yn CDLl 2 Adneuo.<br><br>Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir, Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd – 8 wythnos. | Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) ac Adroddiad ISA o mis **Chwefror tan Ebrill 2025** |
| **4** | **Ymgynghoriad Cynllun Adneuo (Rheoliad 17)**<br><br>Mae'r cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus 6 wythnos statudol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Cynllun Adneuo, Adroddiad ISA, HRA a'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol. Bydd y cynllun adneuo yn nodi'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau safle, yn seiliedig ar y materion allweddol, yr amcanion a'r sail dystiolaeth ategol ar gyfer y cynllun. Bydd y cynllun adneuo yn siapio ac yn arwain cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy i gyflawni'r raddfa a'r math o dwf sy'n angenrheidiol ar gyfer llesiant cymunedol lleol dros gyfnod y cynllun.<br><br>Bydd unrhyw sylwadau a dderbynnir o ganlyniad i'r ymarfer ymgynghori ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio ac ar wefan y Cyngor. | **Bydd y cyfleoedd i gymryd rhan fel a ganlyn:**<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Strategaeth a Ffefrir ac Adroddiad ISA o mis **Ebrill tan Chwefror 2026** |

| Cam Dangosol | | O | I |
|---|---|---|---|
| **5** | **Cyflwyno (Rheoliad 22)**<br>Ar y cam hwn mae'n ofynnol i'r Cyngor gyflwyno'r Cynllun Adneuo, Adroddiad ISA, y Cynllun Cynnwys Cymunedau, copïau o'r holl sylwadau a dderbyniwyd, tystiolaeth ategol allweddol ac adroddiad ymgynghori i Lywodraeth Cymru.<br><br>Bydd arolygydd annibynnol yn cael ei benodi i archwilio'r CDLl 2 Adneuo i benderfynu a yw'r cynllun yn gadarn. | **Bydd y cyfleoedd i gymryd rhan fel a ganlyn:**<br><br>Bydd CDLl 2 a'r holl ddogfennau ategol eraill yn cael eu cyflwyno am Archwiliad ym mis **Chwefror 2027**. Bydd Swyddog Rhaglen yn cael ei benodi i reoli'r broses Archwilio. Nhw fydd y pwynt cyswllt cyntaf i randdeiliaid a gyflwynodd sylwadau yn y cam Adneuo. Cyhoeddir manylion yr Archwiliad ar dudalen we Archwiliad y Cyngor. | |
| **6** | **Archwilio (Rheoliad 23)**<br><br>Bydd yr Arolygydd Annibynnol o Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PEDW) yn cynnal yr archwiliad o CDLl 2 dros gyfres o sesiynau gwrandawiadau a fydd yn cael eu rhagflaenu gan Gyfarfod Cyn Wrandawiad.<br><br>Nod yr archwiliad fydd sicrhau bod CDLl2 mewn sefyllfa lle mae'n gadarn ac y gellir ei fabwysiadu'n ddiogel. Mae'n rhaid asesu felly bod unrhyw newidiadau a gynigir gan yr Arolygydd yn rhai cadarn. | **Bydd y cyfleoedd i gymryd rhan fel a ganlyn:**<br><br>Bydd cyfle i'r rhai a gyflwynodd sylwadau 'a wnaed yn briodol' yn y cam Adneuo gael eu clywed gan yr Arolygydd. Fodd bynnag, bydd mewnbwn angenrheidiol yn cael ei ystyried a'i benderfynu gan yr Arolygydd. Bydd trefniadau ar gyfer cyfranogiad y cyhoedd yn y broses archwilio yn cael eu hysbysebu gan y Swyddog Rhaglen yn nes at yr amser. Bydd y sesiynau archwilio yn rhedeg rhwng mis **Mawrth a Gorffennaf 2027**. | |
| **7** | **Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygwyr (Rheoliad 24)**<br><br>Unwaith y bydd yr Arolygydd yn fodlon nad oes angen profi unrhyw dystiolaeth bellach ac wedi paratoi adroddiad o'u canfyddiadau ynghyd ag unrhyw newidiadau rhwymol i CDLl 2, bydd yn cyflwyno ei adroddiad i'r Cyngor. Bydd yr adroddiad yn rhwymol i'r Cyngor. Wedi iddynt wirio'r ffeithiau bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r adroddiad. | Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd ym mis **Hydref 2027**. Bydd yn cael ei lanlwytho i wefan y Cyngor a bydd ar gael ar ffurf copi caled ym mhrif swyddfeydd y Cyngor i'r cyhoedd ei weld. | |
| **8** | **Mabwysiadu (Rheoliad 25)**<br>Mae'n ofynnol i'r Cyngor fabwysiadu CDLl 2 sy'n ymgorffori argymhellion yr Arolygydd o fewn 8 wythnos. Bydd CDLl 2 yn dod yn weithredol ar y dyddiad y caiff ei fabwysiadu a dylai cyhoeddiad terfynol CDLl2 ddilyn | Bydd y Cyngor yn mabwysiadu CDLl 2 mewn cyfarfod o'r Cyngor llawn ym mis **Rhagfyr 2027.** | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyn gynted â phosibl (ar ôl i'r cyfnod her gyfreithiol chwe wythnos ddod i ben). | Bydd manylion llawn y cyfarfod yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor. |

## 3.16. Argaeledd Dogfennau

3.16.1. Bydd holl ddogfennau CDLl 2 ar gael i'w gweld a'u lawrlwytho ar dudalennau gwe penodol CDLl 2. Yn ogystal, yn unol â'r Rheoliadau CDLl perthnasol, bydd yr holl ddogfennau perthnasol ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio yn y brif swyddfa yn ystod oriau swyddfa arferol:

Canolfan Ddinesig

Heol Ystumllwynarth

Ardal Forwrol

Abertawe

3.16.2. Yn ystod y camau ymgynghori cyhoeddus statudol (ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adneuo) fel y nodir yn nhabl 2 uchod, bydd copïau caled o'r prif ddogfennau ymgynghori yn cael eu gosod ym mhob un o'r 17 llyfrgell i'w harchwilio gan y cyhoedd. Ar hyn o bryd y llyfrgelloedd cyhoeddus yw: Bonymaen, Brynhyfred, Central, Clydach, Fforest-fach, Gorseinon, Tregŵyr, Cilâ, Llansamlet, Treforys, Ystumllwynarth, Penlan, Pennard, Pontarddulais, Sgeti, St Thomas a Townhill.

## 3.17. Cronfa Ddata/Meddalwedd Ymgynghori'r CDLl

3.17.1. Mae'r Cyngor wedi gweithredu system feddalwedd ymgynghori newydd i gefnogi CDLl2. Bydd rhanddeiliaid yn gallu cofrestru eu manylion ar-lein drwy'r system hon ac yna gallant gyflwyno sylwadau ar gamau ymgynghori priodol a chânt eu hysbysu am ymgynghoriadau ar CDLl2 yn y dyfodol. I gofrestru eich manylion ewch i:

https://swansea.oc2.uk/cy/login

3.17.2 Bydd y system ymgynghori yn cael ei rheoli yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR). Bydd angen i unrhyw bartïon sy'n dymuno cofrestru cytuno i Hysbysiad Preifatrwydd y Cyngor sy'n nodi sut y bydd y Cyngor yn defnyddio gwybodaeth ymgyngoreion a chadarnhau eu bod yn derbyn bod eich manylion yn cael eu cadw at ddibenion cyfathrebu CDLl2 yn unig. Gall rhanddeiliaid gofrestru eu manylion unrhyw bryd yn ystod y broses.

3.17.3 Bernir bod unrhyw un sy'n cyflwyno sylwadau ar unrhyw un o gamau CDLl2 wedi rhoi eu caniatâd a chânt eu hychwanegu at y system er mwyn gweinyddu eu sylwadau ac er mwyn iddynt gael eu hysbysu'n ddigonol am gyfleoedd pellach i gymryd rhan yn ddiweddarach yn y proses. Fodd bynnag, os dymunwch i'ch manylion gael eu tynnu oddi ar y system yna byddwch yn gallu dad-danysgrifio, a bydd eich manylion yn cael eu dileu ar gyfer ymgynghoriadau yn y dyfodol.

## 3.18. Manylion Cyswllt

Gellir cael rhagor o wybodaeth am broses y CDLl drwy fynd i wefan y Cyngor:

https://www.abertawe.gov.uk/CDLl2

Neu i'r rhai nad ydynt yn gallu cyrchu gwefan y Cyngor, gellir cael rhagor o wybodaeth drwy gysylltu â'r canlynol:

E-bost: cdll@abertawe.gov.uk

Creu Lleoedd a Chynllunio Strategol
Cyngor Abertawe
Canolfan Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Ardal Forwrol
Abertawe
SA1 3SN

Croesewir sylwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg

# Atodiad 1: Amserlen CDLl 2

| Atodiad 1: Amserlen CDLl 2 Abertawe (2023-2038) | 2023 | | | | | | | | | | | | 2024 | | | | | | | | | | | | 2025 | | | | | | | | | | | | 2026 | | | | | | | | | | | | 2028 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | CH | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | CH | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | H |
| **Cam Allweddol 1: Cytundeb Cyflawni (Rheoliad 9)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd Gwleidyddol - Adrodd ar y CC drafft i'r Cyngor Llawn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi CC Drafft ar gyfer ymgynghoriad | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd Gwleidyddol - Adrodd ar y CC terfynol i'r Cyngor Llawn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno i LlC i'w gymeradwyo | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyhoeddi CC yn dilyn cymeradwyaeth LlC - CDLl 2 yn cychwyn yn ffurfiol | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd Gwleidyddol - Adrodd ar y CC Diwygiedig i'r Cyngor Llawn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno CC diwygiedig i LlC a chymeradwyaeth dilynol gan LlC | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cam Allweddol 2: Cynigion Cyn-Adneuo/Paratoi a Chyfranogi (Rheoliad 14)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adolygu a datblygu gwybodaeth a thystiolaeth | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |

| |
|---|
| sylfaenol / Comisiynu ymgynghorwyr allanol |
| Adnabod Materion Allweddol |
| Safleoedd Ymgeisiol - Paratoi Methodoleg Asesu Safleoedd Ymgeisiol |
| ISA Cam A: Paratoi Adroddiad Cwmpasu ISA (AAS) |
| ISA Cam A: Ymgynghoriad ar Adroddiad Cwmpasu ISA (AAS). |
| **Safleoedd Ymgeisiol - Galwad am Safleoedd Ymgeisiol** |
| ISA Cam A: Asesu, ystyried ac adrodd ar sylwadau a dderbyniwyd ar Adroddiad Cwmpasu ISA (AAS); |
| ISA Cam A: Cyhoeddi Adroddiad Cwmpasu ISA (AAS) gan gynnwys penderfyniadau Sgrinio AAS |
| Cyhoeddi Adroddiad Cwmpasu ISA Terfynol |
| Pharatoi ac ymgysylltu ar Weledigaeth ac Amcanion a pharatoi Opsiynau Strategol Drafft |
| **Safleoedd Ymgeisiol - Paratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol** |
| **Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol (Cam 1) - Hidlo Safleoedd Cychwynnol ac Asesiad Manwl** |
| Paratoi'r Strategaeth a Ffefrir |

| |
|---|
| **Arfarniad o Gynaliadwyedd Cam B:** Asesiad o Amcanion ac Opsiynau - Paratoi Adroddiad Cychwynnol ISA (Adroddiad Interim AAS) |
| Paratoi Sgrinio HRA o'r Strategaeth a Ffefrir |
| Adrodd Gwleidyddol - Strategaeth a Ffefrir, Sgrinio HRA ac ISA i'r Cyngor Llawn |
| **Cam Allweddol 3: Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Rheoliadau 15, 16, 16A)** |
| Ymgynghoriad ar y Strategaeth a Ffefrir (gan gynnwys Safleoedd Strategol), Adroddiad Interim ISA (AAS) ac Adroddiad Sgrinio HRA |
| Asesu, ystyried ac adrodd ar ymatebion a dderbyniwyd ar y Strategaeth a Ffefrir, ISA Interim (AAS) ac Adroddiad Sgrinio HRA a Pharatoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol |
| Paratoi Cynllun Adneuo |
| **Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol (Cam 2) - Asesiad Manwl** |
| **Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol Newydd** |
| **ISA Cam C:** Asesu a lliniaru effeithiau'r CDLl Adneuo - Paratoi Adroddiad ISA (Adroddiad AAS) |

| | 2024 | | | | | | | | | | | | 2025 | | | | | | | | | | | | 2026 | | | | | | | | | | | | 2027 | | | | | | | | | | | | 2029 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | CH | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | CH | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | I | Ch | M | E | M | M | G | A | M | H | T | Rh | H |
| Paratoi Asesiad Priodol (os oes angen) o'r Cynllun Adneuo (HRA) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd Gwleidyddol - Adrodd ar CDLl Adneuo, Adroddiadau ISA (AAS) a HRA i'r Cyngor Llawn | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cam Allweddol 4: Cyfranogiad/Ymgynghoriad Cynllun Adneuo (Rheoliad 17)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Ymgynghoriad ar y Cynllun Datblygu Lleol Adneuo drafft, yr ISA (AAS) a'r HRA | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Asesu ac Ystyried y sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Strategol drafft, adroddiadau ISA (AAS) a HRA | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Adrodd Gwleidyddol - Y Cyngor yn cymeradwyo cyflwyno'r CDLl Adneuo i Lywodraeth Cymru | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Cam Allweddol 5 - Cyflwyno (Rheoliad 22)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno CDLl 2, ISA ac Adroddiad Ymgynghori i LlC | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S | | | | | | | | | | | |
| **Cam Allweddol 6 - Archwilio (Rheoliad 23)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Archwiliad yn cynnwys Cyfarfod Cyn Wrandawiad | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | E | E | E | E | E | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 7 - Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Paratoi Adroddiad yr Arolygydd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | IRP | IRP | | | | | |
| Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | IR | IR | | |
| **Cam Allweddol 8 - Mabwysiadu (Rheoliad 2)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Mabwysiadu CDLl gan y Cyngor Llawn (Rheoliad 35) | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | A | |
| **Cam Allweddol 9 - Monitro ac Adolygu (Rheoliad 37)** | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
| Cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf y CDLl | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | | S |

| **Allwedd** | |
|---|---|
| Paratoi | |
| Adrodd Gwleidyddol i'r Pwyllgor Cynllunio/Cyngor Llawn | |
| Ymgynghoriad Cyhoeddus | |
| Cyflwyno i LlC | S |

**Disgrifiad o Gamau Allweddol a Dyddiadau:**

**Cam 1: Cytundeb Cyflawni**

**Dyddiadau Allweddol:***Ymgynghoriad ar y CC Drafft (Mawrth i Ebrill 23), Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 23) Cyflwyno CC Diwygiedig i Lywodraeth Cymru (Ionawr 2025). Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru a cyhoeddi Chwefror 2025.*

Bydd y CC yn gweithredu fel offeryn rheoli prosiect i arwain y gwaith o baratoi CDLl 2. Bydd yn cynnwys yr amserlen ar gyfer ei baratoi a'r Cynllun Cynnwys Cymunedau, gan nodi sut a phryd y bydd rhanddeiliaid yn cymryd rhan yn y broses. Bydd y CC yn destun ymgynghoriad gyda chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol fel y bo'n briodol ac aelodau a'r cyhoedd er mwyn ceisio barn ar ei gynnwys. Mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r CC a Llywodraeth Cymru. Yn dilyn y gymeradwyaeth hon, gall CDLl 2 ddechrau. Mae'r Cytundeb Cyflenwi diwygiedig hwn yn disodli'r Cytundeb Cyflenwi dyddiedig Gorffennaf 2023 yn dilyn cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru.

**Cam 2: Cyfranogiad Cyn-adneuo**

**Dyddiadau Allweddol**: *Galwad am Safleoedd Ymgeisiol (Awst-Hydref 23), Ymgynghoriad ar yr Adroddiad Cwmpasu Drafft (Awst – Hydref 23), Ymgynghoriad yn anffurfiol a chynhyrchu ymgynghoriad ar Weledigaeth ac Amcanion Drafft ac Opsiynau Strategol (Medi 23-Medi 24).*

Yn dilyn cymeradwyo'r CC, y cam ffurfiol cyntaf oedd y cais am enwebiadau ar gyfer Safleoedd Ymgeisiol i'w cyflwyno i'w hystyried i'w cynnwys yn CDLl 2. Cafodd hyn ei hysbysebu'n eang a cymrodd lle rhwng Awst - Hydref. Er mwyn sicrhau bod safleoedd posibl yn cael eu hystyried yn briodol, roedd rhaid eu cyflwyno yn ystod y cyfnod Galwad am Safleoedd ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol ofynnol. **Fodd bynnag, nid yw hwn yn ymrwymiad y bydd yr holl safleoedd yn cael eu cynnwys yn CDLl 2.** Ar ôl i'r ymgynghoriad Galwad am Safleoedd ddod i ben, fe wnaeth y Cyngor paratoi Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol y mae'n rhaid ei chyhoeddi ar wefan y Cyngor a dylai fod ar gael fel rhan o ymgynghoriad Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) CDLl 2. Mae'r Cyngor wedi cynnal Asesiad Cam 1 cychwynnol o'r holl safleoedd a gyflwynwyd ynghyd â gwaith asesu manwl cynnar fel y bo'n briodol.

Bydd y Cyngor wedi paratoi ac ymgynghori ar Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd Drafft sy'n gosod y cyd-destun, yn sefydlu'r llinell sylfaen ac yn nodi'r amcanion SA/AAS Drafft a fydd yn cael eu defnyddio i asesu CDLl 2. Ymgynghorwyd â'r cyrff ymgynghori statudol ac ar ôl asesu'r ymatebion i'r ymgynghoriad, cafodd Adroddiad Cwmpasu Arfarniad o Gynaliadwyedd terfynol ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2024.

Yn ystod y cam hwn mae gwaith helaeth wedi cael ei wneud i gasglu gwybodaeth a thystiolaeth i ddeall y cyd-destun a'r materion y mae angen mynd i'r afael â nhw yn

CDLl 2. Mae hyn wedi cynnwys drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, cynhyrchu gweledigaeth ac amcanion ar gyfer y CDLl a datblygu opsiynau twf a dulliau gofodol strategol. Mae hyn wedi llywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) ar gyfer CDLl 2 a fydd yn nodi'r ymagwedd fras at raddfa a lleoliad twf sy'n sicrhau bod datblygiad yn cael ei gynllunio mewn modd cynaliadwy. Bydd yn darparu'r fframwaith strategol ar gyfer polisïau, cynigion a dyraniadau manylach a fydd yn cael eu cynnwys yn CDLl 2 Adneuo. Bydd y Strategaeth a Ffefrir yn cael ei llywio gan asesiadau cynaliadwyedd gofynnol i'w cynnwys a'u cyhoeddi fel rhan o'r Adroddiad ISA Cychwynnol.

**Cam 3: Ymgynghoriad Cyn-adneuo**

**Dyddiadau Allweddol:***Ymgynghoriad ar Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir) CDLl 2 (Chwefror-Ebrill 25)*

Mae'r cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus statudol (cyfnod isafswm o 6 wythnos) ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar Strategaeth a Ffefrir CDLl 2 a'r Adroddiad ISA ategol, , Adroddiad Sgrinio HRA a'r Gofrestr Safleoedd Posib.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd y Cyngor yn asesu'r ymatebion a dderbyniwyd, yn penderfynu ar y newidiadau sydd eu hangen i'r Strategaeth a Ffefrir ac yn paratoi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol.

Bydd gwaith asesu manwl pellach yn cael ei wneud ar Safleoedd Ymgeisiol a gyflwynwyd yn flaenorol a bydd gwaith asesu yn cael ei wneud ar unrhyw safleoedd newydd a gyflwynir yn ystod cam ymgynghori'r Strategaeth a Ffefrir.

Bydd y Cyngor yn dechrau ar y broses o baratoi'r CDLl Adneuo. Bydd y cynllun adneuo yn nodi'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau safle, yn seiliedig ar y materion allweddol, yr amcanion a'r sail dystiolaeth ategol ar gyfer y cynllun. Bydd y cynllun adneuo yn siapio ac yn arwain cynigion datblygu i leoliadau cynaliadwy i gyflawni'r raddfa a'r math o dwf sy'n angenrheidiol ar gyfer llesiant cymunedol lleol dros gyfnod y cynllun. Bydd y cynllun yn dangos bod datblygiad yn ariannol hyfyw, yn gyflawnadwy dros amserlen benodedig ac yn cael ei gefnogi gan seilwaith a ariennir. Defnyddir y fframwaith ISA i asesu a lliniaru effeithiau'r Cynllun Adneuo a bydd y broses asesu hon yn cael ei nodi yn yr Adroddiad SA Cychwynnol (yr Adroddiad Amgylcheddol). Bydd adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cofnodi canlyniadau asesu unrhyw opsiynau diwygiedig neu newydd o ganlyniad i ymgynghoriad cyhoeddus neu newidiadau eraill a bydd y cyrff ymgynghori statudol yn cael eu hysbysu ac yn cael cyfle i wneud sylwadau. Bydd yr adroddiad SA ategol yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r asesiad o'r Cynllun Adneuo.

**Cam 4: Ymgynghoriad ar y CDLl Adneuo**

**Dyddiadau Allweddol:***Ymgynghoriad ar CDLl 2 Adneuo (Ebrill-Mehefin 26)*

Mae'r cam hwn yn cynnwys ymgynghoriad cyhoeddus statudol (isafswm o 6 wythnos)  ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar CDLl 2 Adneuo, Adroddiad ISA ategol, Adroddiad HRA ac Adroddiad Ymgyghori Cychwynnol.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd y Cyngor yn dadansoddi ac yn cofnodi'r sylwadau a dderbyniwyd ac yn paratoi ymateb y Cyngor i'r sylwadau ac yn ystyried newidiadau (Eithriadau yw Newidiadau â Ffocws). Bydd y Cyngor yn sicrhau bod y sylwadau ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio. Bydd y Cyngor yn cwblhau'r adroddiad ymgynghori ac yn paratoi datganiadau tir cyffredin gyda gwrthwynebiadau allweddol/strategol.

Bydd swyddog rhaglen yn cael ei benodi, a bydd y Cyngor yn cysylltu â Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i gyflwyno amseriadau diffiniol ar gyfer y camau sy'n weddill. Bydd rhanddeiliaid yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am amserlenni wrth symud ymlaen.

Yn olaf, bydd y CDLl Adneuo, yr Adroddiad SA a'r dogfennau ategol yn cael eu cyflwyno i'r Cyngor i'w cymeradwyo ar gyfer eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Cam 5: Cyflwyno**

**Dyddiadau Allweddol:***Cyflwyno'r CDLl Adneuo i Lywodraeth Cymru (Chwefror 27)*

Bydd y CDLl Adneuo, yr Adroddiad SA, yr adroddiad ymgynghori terfynol a'r holl dystiolaeth ategol yn cael eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i'w Harchwilio gan Arolygydd Cynllunio Annibynnol.

Bydd y Cyngor yn dilyn canllawiau cyhoeddedig ar baratoi/gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno ac archwilio. Bydd manylion yr Archwiliad yn cael eu hysbysebu ar wefan Archwilio'r Cyngor a byddant yn cael eu hysbysu i'r sawl sy'n gwneud sylwadau a phartïon â diddordeb sydd ar gronfa ddata CDLl 2. Bydd cyfle i'r rhai a gyflwynodd sylwadau 'a wnaed yn briodol' yn y cam Adneuo gael eu clywed gan yr Arolygydd. Rôl yr Arolygydd yw archwilio CDLl 2 yn ei gyfanrwydd a phrofi ei gadernid, ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a pharatoi argymhellion a'r rhesymau dros yr argymhellion hynny ar ffurf Adroddiad yr Arolygydd.

**Cam 6: Archwiliad Annibynnol**

**Dyddiadau Allweddol:** *Archwiliad (gan gynnwys Cyfarfod Cyn Wrandawiad - os oes angen) (Mawrth/Gorffennaf 27)*

Bydd arolygydd annibynnol o PEDW yn cynnal yr archwiliad o CDLl 2. Bydd hyn yn cael ei wneud dros gyfres o sesiynau gwrandawiadau ar wahanol feysydd pwnc. Bydd yr holl ddogfennaeth sy’n gysylltiedig â’r Archwiliad ar gael ar wefan CDLl 2. Anfonir gwybodaeth at bartïon â diddordeb a’r cyhoedd yn ogystal â’r rhai sy’n ymwneud â’r achos cyffredinol. Rôl yr Arolygydd fydd archwilio CDLl 2 yn ei gyfanrwydd a phrofi ei gadernid. Byddant yn paratoi argymhellion a’r rhesymau dros yr argymhellion hynny ar ffurf Adroddiad yr Arolygydd.

Yn ystod y cam Archwilio, bydd y broses ISA yn cael ei defnyddio i sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir i’r Cynllun Adneuo (Newidiadau â Ffocws, Newidiadau Materion sy’n Codi yn ystod yr archwiliad neu’r rhai sy’n ofynnol gan yr Arolygydd) wedi’u hasesu’n briodol i sicrhau eu bod yn gynaliadwy.

**Cam 7: Derbyn a Chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd**

**Dyddiadau Dangosol Allweddol:** *Derbyn a Chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Hydref 27)*

Bydd yr Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad terfynol i’r Cyngor a fydd yn rhwymol. Cyn cyhoeddi’r adroddiad, bydd y Cyngor yn cynnal ymarfer gwirio ffeithiau o fewn pythefnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd. Unwaith y bydd hyn wedi’i gwblhau a’r Arolygydd wedi ymateb i unrhyw bwyntiau a godwyd, bydd yr adroddiad terfynol yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor a Chyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru. Daw’r archwiliad i ben yn ffurfiol pan gyflwynir Adroddiad yr Arolygydd i’r ACLl. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd cyn y dyddiad y caiff ei fabwysiadu yn ystod Hydref 2027

**Cam 8: Mabwysiadu**

**Dyddiadau Dangosol Allweddol:** *Cyngor yn mabwysiadu’r CDLl (Rhagfyr 27)*

O fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd, os ystyrir bod y cynllun yn gadarn, bydd rhaid i’r Cyngor fabwysiadu’r CDLl. Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn cyhoeddi datganiad mabwysiadu yn unol â’r rheoliadau, yn rhoi cyhoeddusrwydd eang bod y CDLl wedi’i fabwysiadu a lle gellir ei archwilio. Bydd y mabwysiadu’n nodi’r dyddiad mabwysiadu a’r cyfnod ar gyfer her yr Uchel Lys. Daw’r CDLl yn weithredol ar y dyddiad mabwysiadu.

**Cam 9: Monitro ac Adolygu**

**Dyddiadau Dangosol Allweddol:** *Cyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf y CDLl (Hydref 29)*

Bydd y Cyngor yn monitro CDLl 2 yn flynyddol i nodi gweithrediad llwyddiannus polisïau a meysydd lle mae angen newid. Bydd hefyd yn monitro effeithiau sylweddol CDLl 2 yn erbyn amcanion cynaliadwyedd. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol cyntaf yn cael ei gynhyrchu ym mis Hydref 2028 ac yn caniatáu ar gyfer blwyddyn lawn o fonitro (1 Ebrill – 31 Mawrth) yn ystod y flwyddyn ariannol ar ôl mabwysiadu.

Bydd angen dechrau adolygiad statudol o CDLl 2 o leiaf 4 blynedd ar ôl ei fabwysiadu erbyn Rhagfyr 2031.

# Atodiad 2: Asesu Risg

| | RISG | EFFAITH | LLINIARU |
|---|---|---|---|
| 1 | Colli/newid staff yn arwain at arbenigedd mewnol annigonol a/neu gynyddu llwyth gwaith unigol | Colli'r capasiti i gwblhau camau o broses CDLl 2 yn brydlon. Anallu i ddarparu adnoddau ar gyfer gwahanol dasgau felly'n peryglu eu hansawdd, neu yn yr achos gwaethaf, methu â chyflawni neu gwblhau'r dasg | • Cynnal aelodaeth llawn o'r Tîm Polisi Cynllunio, a'i ategu drwy adleoli/secondiad pan fo angen.<br>• Sicrhau bod CDLl 2 yn cael y flaenoriaeth uchaf wrth reoli llwyth gwaith<br>• Defnyddio ymgynghorwyr allanol |
| 2 | Adnoddau ariannol annigonol | Anallu i ariannu tasgau amrywiol sy'n gofyn am arbenigedd allanol | • Cynnwys hyblygrwydd ar gyfer costau nas rhagwelwyd<br>• Caniatáu i gyllideb CDLl 2 gael ei dwyn ymlaen yn flynyddol os bydd tanwariant<br>• Sicrhau bod cost Archwiliad Annibynnol ac Adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gynnwys yng nghynllunio ariannol tymor canolig y Cyngor |
| 3 | Deddfwriaeth newydd gyda goblygiadau polisi a dosbarthiad gwael o'r wybodaeth hon | Llithriant yn yr amserlen oherwydd:<br>• Angen adolygu/diwygio'r sail dystiolaeth a pholisïau.<br>• Ailddrafftio Polisïau/Cynllun yn hwyr | • Monitro deddfwriaeth a chanllawiau sy'n dod i'r amlwg yn ofalus i sicrhau'r ymateb cynharaf posibl wrth baratoi CDLl 2 i bolisïau/tasgau newydd, ac ati.<br>• Adolygu gweithdrefnau ymgynghori gyda LlCC a chyrff eraill i sicrhau yr ymgynghorir yn uniongyrchol â'r Tîm Polisi Cynllunio |
| 4 | Gwrthwynebiadau neu wybodaeth hwyr sylweddol gan randdeiliaid allweddol | Llithriant yn yr amserlen oherwydd:<br>Angen ailddrafftio polisïau/Cynllun i gynnwys yr wybodaeth ychwanegol | • Gwella gweithdrefnau cysylltu â rhanddeiliaid allweddol a chysoni amserlenni prosiectau lle bynnag y bo modd<br>• Adnabod yn gynnar unrhyw anhawster (o ran amser) wrth ddarparu ymateb<br>• Caniatáu hyblygrwydd o fewn yr amserlen ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn hwyr |
| 5 | Anhawster wrth gael gwybodaeth/ arbenigedd angenrheidiol i hysbysu CDLl 2 | CDLl 2 yn methu'r prawf cadernid oherwydd tystiolaeth annigonol, neu achosion o lithriant yn yr amserlen oherwydd bod amser neu adnoddau'n cael eu dargyfeirio i gael gwybodaeth | • Diogelu'r adnoddau angenrheidiol o ran amser a chyllid i sicrhau'r wybodaeth angenrheidiol a chynnwys digon o hyblygrwydd o fewn yr amserlen i wneud hyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **6** | Oedi allanol (Arolygiaeth Gynllunio, ymatebion ymgyngoreion, argraffwyr, cyfieithwyr) | Llithriant yn yr amserlen | • Nodi terfynau amser ymateb yn glir a sefydlu protocolau atgoffa<br>• Cysylltu dyddiadau cau â chylchoedd paratoi adroddiadau'r Cabinet/Cyngor<br>• Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i LlCC<br>• Adeiladu hyblygrwydd yn yr amserlen o amgylch etholiadau Llywodraeth Leol |
| **7** | Her gyfreithiol | Dileu CDLl 2 mabwysiedig, a llwyth gwaith ychwanegol | • Gwirio'n barhaus gyda'r Gwasanaethau Cyfreithiol a gydymffurfir â'r holl Reoliadau, Deddfau a Chanllawiau perthnasol<br>• Parhau â gwaith Rhanbarthol i rannu arfer gorau gydag ACLlau eraill |
| **8** | Cylchoedd adrodd afrealistig a Materion Gwleidyddol yn ehangach, gan gynnwys Etholiadau'r Cyngor | Llithriant yn yr amserlen | • Sicrhau y gellir galw cyfarfodydd arbennig i symud materion CDLl 2 ymlaen<br>• Sefydlu Grŵp Cynghori o Aelodau i ymdrin â chyflawni CDLl 2<br>• Hyfforddiant cynnar i aelodau ar ôl etholiadau |
| **9** | Yr amserlen yn rhy uchelgeisiol oherwydd llwyth gwaith mwy na'r disgwyl yn ymwneud â dyletswyddau'r Cyngor a gofynion y CJC, gan gynnwys cynhyrchu Cynllun Datblygu Strategol, ynghyd ag oedi o ran tystiolaeth/tystiolaeth sy'n dod i'r amlwg ar adegau heb eu cysoni â'r CC. | Llithriant yn yr amserlen<br><br>Goblygiadau o ran Adnoddau | • Ystyried adnoddau ychwanegol<br>• Parhau i gysylltu'n agos â Llywodraeth Cymru a'r CJC<br>• Sicrhau bod digon o adnoddau ar gael a chefnogaeth gorfforaethol i'r broses SDP a'r amserlen o'r cychwyn cyntaf yn cyd-fynd â pharatoi CDLl 2.<br>• Cynllunio Anghenion o ran Tystiolaeth a Chynnal/Comisiynu Casglu Tystiolaeth mewn da bryd<br>• Paratoi'r Cynllun i fod yn addasadwy ac yn ymatebol/ hyblyg i newid lle bo modd |
| **10** | Oedi yn sgil cyfieithu i'r Gymraeg | Llithriant yn yr amserlen | • Ystyried adnoddau ychwanegol<br>• Gweithio'n agos gydag adrannau perthnasol |
| **11** | Diffyg consensws ar draws y sefydliad a/neu ddiffyg cefnogaeth gan swyddogion/ adrannau eraill wrth gynhyrchu'r sail dystiolaeth | Llithriant yn yr amserlen | • Sicrhau cyswllt agos ag Aelodau a Swyddogion allweddol a'u cynnwys yn gynnar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **12** | Adolygiad Cynnar o CDLl 2 neu CDLl 2 yn cael ei atal cyn ei fabwysiadu oherwydd y gofyniad i alinio â Chynllun Datblygu Strategol | Llithriant yn yr amserlen | • Sicrhau cyfranogiad yn natblygiad gwaith rhanbarthol. Cyswllt parhaus â Llywodraeth Cymru. |
| **13** | 'Dyddiad marw' y CDLl presennol yn agosau | Goblygiadau polisi | • Sicrhau bod CDLl 2 yn cael ei fabwysiadu cyn neu'n fuan ar ôl y 'dyddiad marw'<br>• Datblygu strategaethau lliniaru ar gyfer cyfnod heb gynllun<br>• Negodi gyda LlC i archwilio deddfwriaeth ddiwygio ynghylch data marw. |
| **14** | Oedi cyn cyflwyno ceisiadau mawr nes bod CDLl 2 wedi'i fabwysiadu | Goblygiadau polisi<br><br>(e.e. darparu tai/cyflogaeth) | • Sicrhau bod CDLl 2 yn cael ei fabwysiadu cyn gynted â phosibl er mwyn lleihau goblygiadau sy'n gysylltiedig ag oedi cyn gwneud ceisiadau mawr. |
| **15** | Goblygiadau ISA/HRA ar strategaeth y cynllun | Llithriant yn yr amserlen | • Sicrhau bod y broses wedi'i hintegreiddio'n llawn â pharatoi'r CDLl 2 |

# Atodiad 3: Rhestr o Gyrff Ymgynghori Penodol a Chyffredinol

**Cyrff Ymgynghori Penodol fel y'u diffinnir yn Rheoliad 2 y CDLl (gan gynnwys Adrannau Llywodraeth y DU):**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â'r cyrff ymgynghori penodol canlynol ym mhob cam wrth baratoi CDLl 2

**Cyrff ymgynghori cyhoeddus**

Cadw

Darparwyr cyfathrebu (BT Group Plc, Mobile UK)

Ymgymerwyr Trydan a Nwy (Y Grid Cenedlaethol, National Gas Transmission, Wales and West Utilities, British Gas)

Cyfoeth Naturiol Cymru

Network Rail Infrastructure Ltd

Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe

Ymgymerwyr Carthffosiaeth a Dŵr (Dŵr Cymru/Welsh Water)

Llywodraeth Cymru

**Awdurdodau Lleol Cyffiniol neu yn Rhanbarth y De-orllewin**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyngor Sir Gâr

Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot

Cyngor Sir Penfro

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Cyngor Sir Powys

**Cynghorau Cymuned a Thref (Abertawe)**

Cyngor Cymuned Llandeilo Ferwallt

Cyngor Cymuned Clydach

Cyngor Tref Gorseinon

Cyngor Cymuned Tregŵyr

Cyngor Cymuned Pengelli a Waun-gron

Cyngor Cymuned Ilston

Cyngor Cymuned Cilâ

Cyngor Cymuned Llangynydd, Llanmadog a Cheriton

Cyngor Cymuned Llangyfelach

Cyngor Cymuned Llanrhidian Uchaf

Cyngor Cymuned Llanrhidian Isaf

Cyngor Tref Llwchwr

Cyngor Cymuned Mawr

Cyngor Cymuned y Mwmbwls

Cyngor Cymuned Penlle'r-gaer

Cyngor Cymuned Pennard

Cymuned Cyngor Pen-rhys

Cyngor Tref Pontarddulais

Cyngor Cymuned Pont-lliw a Thir-coed

Cyngor Cymuned Porth Einon

Cyngor Cymuned Reynoldston

Cyngor Cymuned Rhosili

Cyngor Cymuned Y Crwys

Cyngor Cymuned Cilâ Uchaf

**Cynghorau Cymuned a Thref Cyffiniol (mewn siroedd eraill)**

**Sir Gâr:**

Cyngor Tref Rhydaman

Cyngor Cymuned y Betws

Cyngor Tref Cwmaman

Cyngor Cymuned Llanedi

Cyngor Gwledig Llanelli

Cyngor Cymuned Llangennech

Castell-nedd Port Talbot:

Cyngor Cymuned Cilybebyll

Cyngor Cymuned Coedffranc

Cyngor Cymuned Dyffryn Clydach

Cyngor Tref Pontardawe

**Adrannau Llywodraeth y DU**

Yr Adran Drafnidiaeth

Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol

Y Swyddfa Gartref

Y Weinyddiaeth Amddiffyn

## Cyrff Ymgynghori Cyffredinol

**Cyrff Ymgynghori Cyffredinol fel y'u diffinnir yn Rheoliad CDLl 2:**

Bydd y Cyngor yn ymgynghori â chyrff ymgynghori cyffredinol a chyrff ymgynghori eraill isod lle ystyrir bod hynny'n briodol yn unol â'r Cytundeb Cyflawni. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a gellir ychwanegu ati fel y bo'n briodol

**Busnes**

Busnes yn y Gymuned

Busnes yn y Gymuned Cymru

Ffederasiwn Busnesau Bach

BID Abertawe

Swansea Bay Business Club

Siambr Fasnach De Cymru

Bargen Ddinesig Bae Abertawe

Consortiwm Manwerthu Prydain

**Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd**

Plant Yng Nghymru

Comisiynydd Plant Cymru

Prosiect Cefnogi Teuluoedd Eastside

Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru

Ffydd mewn Teuluoedd

Friends of the Young Disabled

Info-Nation

NCT Abertawe

YMCA Abertawe

Clwb Ieuenctid 'Talking Hands'

Cymdeithas Clybiau Ieuenctid Cymru

Clwb Ieuenctid Tŷ Fforest

Menter yr Ifanc Cymru

**Cymdeithasau a Gweithgareddau Cymunedol**

Prosiect Cymunedol Dyffryn Clun

Cwmpas

Côr Meibion Dynfant

Cymdeithas Gŵyr

Yr Ymddiriedolaeth Theatrau

**Ymgynghorwyr, Asiantiaid a Datblygwyr**

Asbri Planning

A P Architecture and Planning

Avison Young

Boyer Planning

CarneySweeney

Ceri Davies Planning Ltd

Crompton Land & Development Ltd

CDN Planning

CT Planning

David James

DevPlan UK

Evans Banks Planning

Geddes Consulting

Geraint John Planning

Greenslade Taylor Hunt

Hammerson Plc

Herbert R Thomas

Highlight Planning

Jason Evans Planning

Land Enhancement Services Ltd

Langland Ltd

Lichfields

Life Property Group

LRM Planning

Lucy White Planning Limited

Mumbles Trade and Tourism

P&C James Properties

Phillippa Cole Planning Consultant

Powell Dobson Urbanists

Rees Richards & Partners

RPS Group

SA1 Waterfront Development Ltd

Savills

Tetlow King Planning

The Planning Bureau Limited

The Urbanists

WSP

**Manylion Ymddiriedolaethau Datblygu a Phartneriaeth**

Ymddiriedolaeth Datblygu'r Mwmbwls

Partneriaeth Pontarddulais

**Addysg**

Coleg Gŵyr Abertawe

Prifysgol Abertawe

Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe

Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant

**Ynni**

Ecotricity

Ymddiriedolaeth Arbed Ynni Cymru

RenewableUK Cymru

Wales & West Utilities

**Cyfathrebu Electronig**

BT Group Plc

Mobile UK

**Gwasanaethau Brys**

Gwylwyr y Glannau

Uned Cynllunio i Leihau Troseddu

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

Heddlu De Cymru

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Awdurdod Heddlu De Cymru

Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (Rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin)

**Cyflogaeth a Hyfforddiant**

Un Llais Cymru

Remploy (Interwork)

Ymddiriedolaeth Shaw

Venture Cymru Abertawe

**Sefydliadau/Grwpiau Amgylcheddol**

Batri Ltd

Arolwg Daearegol Prydain

British Trust for Ornithology

Buglife Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Garbon

Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig

Coed Cadw/The Woodland Trust

DST Innovations

Cymdeithas Gwasanaethau Amgylcheddol

Game & Wildlife Conservation Trust

Grŵp Moch Daear Morgannwg

Grŵp Cynghori ar Fioamrywiaeth Morgannwg

Clwb Adar Morgannwg

Cymdeithas Adaregol Gŵyr

Groundwork Cymru

Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru (gan gynnwys Tîm Datganiad Ardal y De-orllewin)

Ymddiriedolaeth Penlle'r-gaer

Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Creulondeb i Anifeiliaid

Cymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar - Grŵp Lleol Abertawe a'r Cylch

Canolfan Cofnodi Bioamrywiaeth De-ddwyrain Cymru

Fforwm yr Amgylchedd, Abertawe

Cyfeillion y Ddaear, Abertawe

Partneriaeth Natur Leol Abertawe

Canolfan yr Amgylchedd

Grŵp Ystlumod Bro Morgannwg a Phen-y-bont ar Ogwr

Cyswllt Amgylchedd Cymru

Ymddiriedolaeth Gerddi Hanesyddol Cymru

Coed Cadw

World Wildlife Fund, Cymru

**Ystadau**

Swyddfa Ystadau'r Goron

Eiddo Network Rail

Ystadau Penlle'r-gaer

Ystad Pen-rhys

Somerset Trust

**Rhywedd a Chyfeiriadedd Rhywiol**

Chwarae Teg

Llinell Gymorth LHDT+ Cymru

LHDT Prifysgol Abertawe

Cymdeithas Menywod Prifysgol Abertawe

Cynulliad Merched Cymru

Pwyllgor LHDT Cyngres yr Undebau Llafur Cymru

Women 4 Resources

WomenZone

**Cyrff Llywodraethol**

Comisiwn Dylunio Cymru

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylcheddol Cymru (PCAC)

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

**Iechyd a Gallu**

Age Cymru Bae Abertawe

Y Groes Goch Brydeinig

Gofal a Thrwsio (Abertawe)

Cymdeithas y Byddar Cymru

Menter Anabledd

Anabledd Cymru

Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch

Llais

McCarthy & Stone

MENCAP

Iechyd Cyhoeddus Cymru

Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall

Sense Cymru

SNAP - Prosiect Ymgynghorol Anghenion Arbennig

Cymdeithas Anafiadau i'r Asgwrn Cefn

Ambiwlans Sant Ioan

Mynediad i Bawb Abertawe

Bwrdd Iechyd Lleol Bae Abertawe

Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe

Canolfan Pobl Fyddar Abertawe

Fforwm Anabledd Abertawe

Fforwm Iechyd Meddwl Abertawe

Mind Abertawe

Gwasanaeth Gwirfoddol Abertawe

Cyngor Cymru i Bobl Fyddar

Cyngor Cymru i'r Deillion

**Tai a Datblygwyr**

ADAPT

Barratt Homes

Bellway

Caredig

Castell Group

Grŵp Tai Coastal

Cartrefi Cymunedol Cymru

Cwmdu Parc Developments Ltd

Dandara Wales & West

Edenstone

Enzo's Homes

Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr, Cymru

First Choice

Grŵp Gwalia Cyf

JG Hale Construction Ltd

Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi

Hygrove Homes

Jehu

Llanmoor Homes

Lovell Homes

Morganstone

Myty Homes

Pennant Homes

Persimmon Homes Gorllewin Cymru

Grŵp Pobl

Redrow

Short Brothers

St Modwen

Swansea Co-Housing Limited

Taylor Wimpey

Tai Cymoedd i'r Arfordir

Westacres

**Darparwyr Isadeiledd**

Yr Awdurdod Adfer Safleoedd Mwyngloddio

National Gas Transmission

Y Grid Cenedlaethol

Trafnidiaeth Cymru

**Sefydliadau a Chymdeithasau**

The Association for Industrial Archaeology

Sefydliad y Peirianwyr Sifil: Cymru

Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol

Sefydliad Tai Siartredig Cymru

Sefydliad Rheoli Gwastraff Cymru

Sefydliad y Cyfarwyddwyr, Cymru

Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol

Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig

Cymdeithas Frenhinol Penseiri yng Nghymru

Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru

**Aelodau Seneddol**

AS dros Gŵyr - Tonia Antoniazzi (Llafur)

AS dros Gastell-nedd a Dwyrain Abertawe - Carolyn Harris (Llafur)

AS Gorllewin Abertawe - Torsten Bell (Llafur)

**Mwynau ac Agregau**

British Aggregates Association

Hanson

Heidelberg Materials

Jaxx Bay Ltd a Jaxx Harbour Ltd

Tarmac

Mineral Products Association

**Aelodau'r Senedd (Etholaeth)**

Gŵyr - Rebecca Evans AS (Llafur Cymru)

Dwyrain Abertawe - Mike Hedges AS (Llafur Cymru a'r Blaid Gydweithredol)

Gorllewin Abertawe - Julie James AS (Llafur Cymru)

**Aelodau Rhanbarthol Senedd Cymru - De-orllewin Cymru**

De-orllewin Cymru - Luke Fletcher AS (Plaid Cymru)

De-orllewin Cymru - Tom Giffard AS (Ceidwadwyr Cymru)

De-orllewin Cymru - Altaf Hussain AS (Ceidwadwyr Cymru)

De-orllewin Cymru - Sioned Williams AS (Plaid Cymru)

**Pobl Hŷn**

Grŵp Llywio Heneiddio'n Dda Abertawe

Cymru Egnïol (Cymdeithas Genedlaethol Pensiynwyr Cymru yn flaenorol)

Y Gynghrair Pobl Hŷn

Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

**Grwpiau Gwleidyddol**

Llafur Abertawe

Grŵp Plaid Cymru

Democratiaid Rhyddfrydol Abertawe a Gŵyr

Plaid Werdd Abertawe a Gŵyr

Ceidwadwyr Gŵyr ac Abertawe

**Hiliol ac Ethnig**

Y Ganolfan Gymunedol Affricanaidd

Cymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan

Black Ethnic Women Step Out (BAWSO)

BAWSO Abertawe

Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon

Rhwydwaith Amgylchedd Pobl Dduon Cymru

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol Cymru

Y Sefydliad Lleiafrifoedd Ethnig

Tîm Cefnogi Ieuenctid Ethnig (EYST)

Sipsiwn a Theithwyr Cymru

Rhwydwaith Menywod o Leiafrifoedd Ethnig Abertawe

Race Council Cymru

Race Equality First

Cymdeithas Affro-Caribïaidd Abertawe

Cyngor Cydraddoldeb Hiliol Bae Abertawe

Cydweithfa Cymuned Tsieineaidd Abertawe

Grŵp Cefnogi Ceiswyr Lloches Bae Abertawe

Cymdeithas Indiaidd de-orllewin Cymru

Prosiect Diwygio Cyfraith Teithwyr

Mudiad Teithwyr

Cyngor Ffoaduriaid Cymru

**Gweithgorau Rhanbarthol**

Gweithgor Agregau Rhanbarthol De Cymru

Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru

Consortiwm Cludiant Integredig De-orllewin Cymru

**Crefydd a Chred**

Cyngor Hindwiaid y DU

Canolfan Kafel

Cyngor Mwslimiaid Cymru

Eglwys Bresbyteraidd Cymru

Y Gymdeithas Sicaidd

Fforwm Rhyng-ffydd Abertawe

Crynwyr Abertawe

Cymdeithas o Eglwysi Efengylaidd yng Nghymru

Undeb Bedyddwyr Cymru

Y Gymdeithas Bwdaidd

Eglwys Pentecostaidd Elim

Mudiad Efengylaidd Cymru

Yr Eglwys Fethodistaidd yng Nghymru

Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion

Esgobaeth Mynyw Gatholig

Cenhadaeth Uniongred Cymru

Undeb yr Annibynwyr Cymraeg

**Gwledig**

Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad (Cymru)

Undeb Amaethwyr Cymru

Asiantaeth Ffermio a Chadwraeth Wledig

Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru

**Chwaraeon a Hamdden**

Meysydd Chwarae Cymru

Land Access and Recreation Association

Clwb Cychod Casllwchwr

Clwb Cerdded Mawr

Clwb Cychod Hwylio'r Mwmbwls

Clwb Golff Pennard

Chwarae Cymru

Clwb Cerdded Pontarddulais

Cymdeithas y Cerddwyr, Cymru

Chwaraeon Cymru

Cyngor Chwaraeon Cymru

**Cynaliadwyedd**

Y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy, Cymru

Cymru Gynaliadwy

**Cludiant**

Awdurdod Hedfan Sifil

Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr Cymru

Logistics UK (Y Gymdeithas Cludo Llwythi yn flaenorol)

Asiantaeth Cefnffyrdd De Cymru

Sustrans Cymru

Swansea Airport Stakeholder Alliance

The General Aviation Awareness Council

Traffig Cymru

Wheelrights

**Twristiaeth**

Blackhills Leisure (Gower) Limited

British Association of Leisure Parks, Piers & Attractions

Cymdeithas Parciau Gwyliau a Pharciau Cartrefi Prydain

The Camping and Caravanning Club

Morgans Hotel Ltd

Caravan & Motorhome Club

Twristiaeth Bae Abertawe

Croeso Cymru

**Gwirfoddol**

Ymddiriedolaeth AIDS Cymru

Barnado's Cymru

Y Groes Goch Brydeinig, Cymru

Gwirfoddolwyr Coetir Cymunedol Cilfái

Oxfam Cymru

Cymorth Cynllunio Cymru

Ymddiriedolaeth y Dywysoges Frenhinol i Ofalwyr

Y Samariaid

Achub y Plant

Shelter Cymru

Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe

Ymddiriedolaeth Terrence Higgins Abertawe

Ymddiriedolaeth Ddinesig Cymru

Ymddiriedolaeth Adfywio'r Meysydd Glo

Byddin yr Iachawdwriaeth

Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru

Canolfan Gweithredu ar Ddibyniaeth a Chaethiwed Cymru

Cyngor Gorllewin Morgannwg ar Gamddefnyddio Alcohol a Chyffuriau

**Sefydliadau sy'n Ymwneud â Dŵr**

Associated British Ports, Abertawe

British Marine Federation

Dyfrffyrdd Prydain

Glandŵr Cymru

Canolfan Ecoleg a Hydroleg

Awdurdod Iechyd Porthladd Bae Abertawe

Cymdeithas Camlas Tawe

Ymddiriedolaeth Cwch Cymunedol Abertawe

Cymdeithas Porthladdoedd Prydain

**Diwylliant a Threftadaeth Cymru**

Cymdeithas yr Iaith

Menter Abertawe

Merched y Wawr

Ymddiriedolaeth Archeolegol Morgannwg-Gwent

Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Comisiynydd y Gymraeg

# Atodiad 4: Cynllun Cynnwys Cymunedau

## Cam 1 Cytundeb Cyflawni (CDLl Rheoliad 9) (Diffiniol)

**Tabl 2 – Cynllun Cynnwys Cymunedau**

| **BETH**<br>**Disgrifiad a Chamau Allweddol** | **PAM**<br>**Pwrpas yr Ymgysylltiad** | **PRYD**<br>**Amserlenni** | **PWY**<br>**Pwy sy'n cyfrannu** | **SUT**<br>**Ymgysylltu** | **ADBORTH**<br>**Adrodd** | **SA/AAS/ISA**<br>**Ymgysylltu** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Y CC yw'r offeryn rheoli prosiect sy'n nodi'r amserlen y cytunwyd arni a'r cynllun cynnwys cymunedau ar gyfer CDLl 2**<br><br>Caiff CC ei ddrafftio gyda mewnbwn gan randdeiliaid a dargedir a'i gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus<br><br>Ar ôl ystyried y sylwadau, bydd y CC terfynol yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn dilyn Cymeradwyaeth y Cyngor<br><br>Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo'r CC a dechrau ffurfiol ar CDLl 2 | Ymgysylltu gan Lywodraeth Cymru ar yr amserlen a PEDW ar addasrwydd Dyddiadau Archwilio<br><br>Ymgynghoriad cyhoeddus i nodi'r amserlen a chaniatáu mewnbwn ar y Cynllun Cynnwys arfaethedig | 4 wythnos o ymgynghoriad cyhoeddus anstatudol o fis Mawrth i fis Ebrill 2023<br><br>Y Cyngor Llawn yn cymeradwyo'r CC Terfynol Gorffennaf 2023 ac yn ei gyflwyno i LlC Gorfennaf 2023<br><br>LlC yn cymeradwyo'r CC yn Gorffennaf 2023<br><br>Dechrau CDLl2 yn Gorffennaf 2023 yn dilyn cymeradwyaeth LlC | **Drafftio** – Rhanddeiliaid mewnol, Llywodraeth Cymru, PEDW, Cyngor Llawn<br><br>**Ymgynghoriad Cyhoeddus-**<br>Pob Rhanddeiliad<br><br>Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru/LlC<br><br>Aelodau Etholedig | Drafftio– E-byst/ Cyfarfodydd, Adroddiad i'r Cyngor Llawn<br><br>Hysbysebu'r Ymgynghoriad Cyhoeddus drwy:<br>Cronfa Ddata Rhanddeiliaid y CDLl<br>E-byst<br>Gwefan<br>Y Wasg a'r Cyfryngau Cymdeithasol<br>Sesiynau galw heibio yn Swyddfeydd y Cyngor<br><br>Dogfennau Ymgynghori ar gael ar:<br>Gwefan CDLl 2<br>Copi caled o'r ddogfen ar gael yn y Ganolfan Ddinesig a'r Guildhall<br><br>CC terfynol / diwygiedig ar gael ar: Gwefan<br>Copi caled yn y Ganolfan Ddinesig a'r Guildhall | Bydd Agenda a Chofnodion y Cyngor Llawn yn cofnodi'r prosesau ymgysylltu gwleidyddol ar gyfer y CC drafft a therfynol.<br><br>Bydd y CC yn cynnwys adroddiad ymgynghori yn nodi'r sylwadau a dderbyniwyd, ymateb y Cyngor i'r sylwadau ac unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r CC | Gwaith mewnol parhaus yn gwerthuso a diweddaru'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r dystiolaeth sylfaenol a ddefnyddiwyd i lywio'r CDLl presennol.<br><br>Ystyriaeth barhaus i fabwysiadu Arfarniad o Gynaliadwyedd integredig gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol perthnasol |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyflwyno CC diwygiedig i Lywodraeth Cymru a chymeradwyaeth dilynol gan Lywodraeth Cymru | | Ionawr 2025 – Chwefror 2025 | | | | |

**<u>Cam 2 Cyfranogiad Cyn Adneuo (CDLl Rheoliad 14) (Cam Diffiniol)</u>**

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy'n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Deall y cyd-destun a'r materion i fynd i'r afael â nhw yn CDLl 2, casglu tystiolaeth a gwahoddiad i gyflwyno safleoedd i'w hystyried a datblygu gweledigaeth ac amcanion i arwain y gwaith o baratoi'r CDLl 2.**<br><br>**Adolygu a diweddaru'r sail dystiolaeth**<br><br>**Galwad am Safleoedd Ymgeisiol**<br><br>**Ymgysylltu â rhanddeiliaid i ddatblygu'r materion allweddol a ffurfio gweledigaeth ac amcanion trosfwaol i arwain CDLl 2 a datblygu opsiynau strategol** | I adeiladu'r sail dystiolaeth o faterion allweddol y bydd angen i CDLl 2 eu hystyried.<br><br>I dderbyn gan yr holl randdeiliaid safleoedd posibl i'w datblygu neu eu diogelu.<br><br>I gael consensws gan randdeiliaid allweddol ar weledigaeth ac amcanion ar gyfer CDLl 2 a fydd yn llywio'r Strategaeth a Ffefrir | Yn parhau o fis Mehefin 2022<br><br>Galwad am Safleoedd Ymgeisiol o fis Awst i fis Hydref 2023<br><br>Cyfnod ymgynghori statudol o 5 wythnos ar Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad o Gynaliadwyedd o mis Awst 2023-Hydref 2023<br><br>Ymgysylltu â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol allweddol fel yr ystyrir yn briodol ar ddatblygu'r Weledigaeth a'r Amcanion a'r Amcanion a'r Opsiynau Strategol rhwng Medi i Medi 2024.<br><br>Ymgysylltu anffurfiol parhaus ag adrannau mewnol allweddol/cyrff | Ymgysylltu wedi'i dargedu ag adrannau mewnol a chyrff allanol ac awdurdodau cyfagos wrth ddatblygu'r sail dystiolaeth.<br><br>Ymgynghori â Chyrff Ymgynghori Amgylcheddol ar Adroddiad Cwmpasu'r Arfarniad o Gynaliadwyedd<br><br>Galwad am Safleoedd Ymgeisiol yn agored i bob rhanddeiliad gan gynnwys adrannau mewnol, cyrff allanol, datblygwyr, tirfeddianwyr, y cyhoedd, grwpiau cymunedol i | Ymgysylltu wedi'i dargedu drwy:<br>E-byst<br>Teams a chyfarfodydd wyneb yn wyneb<br><br>Ymgysylltu ynghylch yr adroddiad cwmpasu SA drwy:<br>E-byst<br>Cyfarfodydd Teams fel y bo'n briodol<br><br>Rhoddwyd cyhoeddusrwydd eang i'r Alwad am Safleoedd Ymgeisiol ar gyfryngau cymdeithasol ac ar y wefan cyn y cam ffurfiol ar gyfer galw am safleoedd er mwyn caniatáu i bartïon ystyried a pharatoi tystiolaeth angenrheidiol a fydd yn allweddol i sicrhau bod blaenlwytho'n digwydd. Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i Gam | Bydd papurau cefndir a thystiolaeth yn cael eu lanlwytho i dudalennau gwe CDLl 2 pan fyddant ar gael.<br><br>Yn dilyn yr Alwad am Safleoedd Ymgeisiol bydd y Cyngor yn cynhyrchu Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol a fydd ar gael ar wefan CDLl 2 ac ar ffurf copi caled yn y Ganolfan Ddinesig erbyn yr ymghynghoriad ar y Cynllun Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir)<br><br>Ymgysylltir â'r GYA ar adegau allweddol wrth baratoi CDLl2 | Gwaith mewnol parhaus yn gwerthuso a diweddaru'r Fframwaith Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r dystiolaeth sylfaenol a ddefnyddiwyd i lywio'r CDLl presennol.<br><br>Ymgynghoriad Statudol ar yr Adroddiad Cwmpasu<br><br>Ymgysylltu'n anffurfiol â CNC ynghylch yr Adroddiad Sgrinio HRA |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Paratoi Adroddiad Cwmpasu yr Arfarniad o Gynaliadwyedd a chynnal ymgynghoriad wedi'i dargedu â rhanddeiliaid allweddol**<br><br>**Paratoi Strategaeth a Ffefrir CDLl 2 yn nodi'r strategaeth gyffredinol a pholisïau strategol a safleoedd strategol allweddol**<br><br>**Paratoi'r Adroddiad SA Cychwynnol a'r Asesiad Sgrinio Rheoliadau Cynefinoedd**<br><br>**Cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r Strategaeth a Ffefrir a dogfennau SA/HRA i fynd allan ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus statudol** | | allanol i lywio gwaith drwy gydol 2023 /24<br><br>Y Cyngor Llawn i gymeradwyo'r Strategaeth a Ffefrir a'r dogfennau ategol ym mis Ionawr 2025 | gyflwyno safleoedd i'w hystyried.<br><br>Ymgysylltu wedi'i dargedu ag adrannau mewnol a chyrff ymgynghori allanol a cyffredinol a phenodol penodol fel y'r ystyrir yn briodol<br><br>Swyddogion mewnol a Gweithgor y CDLlA os ystyrir ynbriodol.<br><br>Ymgysylltu ag Aelodau Etholedig drwy'r broses | yr Alwad am Safleoedd gan ddefnyddio'r canlynol fel y bo'n briodol:<br>E-byst<br>Sesiynau galw heibio gyda swyddogion trwy Teams neu gyfarfodydd wyneb yn wyneb<br>Cyfarfodydd rhithwir<br><br>Hysbysebu'r Ymgynghoriad Cyhoeddus drwy:<br>Cronfa Ddata Rhanddeiliaid y CDLl<br>E-byst<br>Gwefan<br>Y Wasg a'r Cyfryngau Cymdeithasol<br>Sesiynau galw heibio yn Swyddfeydd y Cyngor<br>Ystafell ymgysylltu rithwir<br><br>Gwnaeth y Cyngor yn cyhoeddi Canllawiau a Methodoleg Cyflwyno Safleoedd Ymgeisiol manwl i egluro'r broses dadansoddi a dethol safleoedd a ragwelir.<br><br>Ymgysylltu â chyrff ymgynghori penodol a chyffredinol drwy:<br>E-byst<br>Cyfarfodydd wyneb yn wyneb/digwyddiadau rhithwir fel y bo'n briodol | | |

## Cam 3 Ymgynghoriad Cyn Adneuo (CDLl Rheoliad 15) (Cam Diffiniol)

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy'n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ymgynghoriad Cyhoeddus ar: Strategaeth a Ffefrir CDLl 2 Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd Cychwynnol Asesiad Sgrinio HRA** , **Cofrestr o Safleoedd Ymgeisiol .**<br>Fe fydd Tystiolaeth Gefndirol ac unrhyw bapurau pwnc perthnasol ar gael**.** | Er mwyn cael mewnbwn eang i Strategaeth a Ffefrir y CDLl Drafft, er mwyn galluogi rhanddeiliaid a'r cyhoedd i gyflwyno eu barn ar y strategaeth sy'n dod i'r amlwg, polisïau allweddol a safleoedd strategol a dogfennau cysylltiedig | Ymgynghori â'r Cyhoedd yn ystod cyfnod statudol o chwe wythnos rhwng Chwefror a Ebrill 2025 (cyfnod isafswm o 6 wythnos) | Ymgynghori â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb yn CDLl 2 | Ymgynghoriad cyhoeddus i'w hysbysebu'n eang:<br>Negeseuon e-bost at yr holl ymgyngoreion ar gronfa ddata'r CDLl<br>Sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor<br>Canolfannau Cyswllt y Cyngor<br><br>Bydd swyddogion yn cynnal, fel yr ystyrir yn briodol:<br>Sesiynau galw heibio<br>Arddangosfeydd<br>Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a grwpiau allweddol a nodwyd<br><br>Dogfennau Ymgynghori a ffurflenni sylwadau ar gael ar:<br>Gwefan CDLl 2<br>Copïau caled o'r Strategaeth a Ffefrir ar gael yn | Bydd sylwadau ac ymatebion iddynt yn cael eu hadrodd i'r Aelodau Etholedig<br><br>Bydd yr holl sylwadau ac ymatebion, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r Cynllun Cyn-adneuo ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Adneuo.<br>Bydd papurau cefndir a thystiolaeth yn cael eu lanlwytho i dudalennau gwe CDLl 2 pan fyddant ar gael.<br><br>Ymgysylltir â'r GYA ar adegau allweddol wrth baratoi CDLl2<br>Bydd y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol yn cael ei diweddaru gyda Safleoedd Newydd/Amgen a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori | Bydd y Cyngor yn dilyn arfer gorau ac yn ymgynghori ar yr Adroddiad SA Cychwynnol ac Asesiad Sgrinio HRA ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir er y bydd hyn yn cael ei dargedu'n benodol at y Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | y Ganolfan Ddinesig a’r Guildhall<br>Copi o’r Strategaeth a Ffefrir a ffurflenni cynrychiolaeth lle bo’n bosibl ym mhob un o’r 17 llyfrgell yn Abertawe<br><br>Bydd y Cyngor yn ystyried gweithredu system ryngweithiol ar y we i gofnodi sylwadau yn electronig<br><br>Bydd y Cyngor yn darparu hysbysiad a datganiad o faterion cyn-adneuo yn ystod y cam hwn yn unol â’r Rheoliadau | | |

## Cam 4 Ymgynghoriad Cynigion Adneuo (CDLl Rheoliad 17) (Cam Diffiniol)

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy’n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cael Cymeradwyaeth y Cyngor ar y Cynllun Adneuo ac Ymgynghoriad Cyhoeddus ar: Cynllun Adneuo CDLl 2**<br>**Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (ISA)**<br>**HRA**<br>**Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol**<br><br>**Cyhoeddi dogfennau cefndir ategol (tystiolaeth)**<br>**Cyhoeddi Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol** | I sicrhau mewnbwn eang i'r Cynllun Adneuo er mwyn caniatáu i randdeiliaid a'r cyhoedd gyflwyno eu barn ar y Cynllun Adneuo, y polisïau allweddol i arwain datblygiad a defnydd tir a'r dyraniadau datblygu arfaethedig ar gyfer gwahanol ddefnyddiau ac ardaloedd gwarchod. | Y Cyngor Llawn i gymeradwyo'r Cynllun Adneuo a'r dogfennau ategol ym mis Mawrth 2026<br><br>Ymgynghoriad Cyhoeddus (isafswm o 6 wythnos) i'w gynnal am gyfnod statudol o chwe wythnos yn ystod Ebrill i Mehefin 2026 ar y Cynllun Adneuo a'r Adroddiad SA rhwng Mehefin a Gorffennaf 2025 | Ymgynghori â'r holl randdeiliaid sydd â diddordeb yn CDLl 2 | Ymgynghoriad cyhoeddus i'w hysbysebu'n eang:<br>Negeseuon e-bost at yr holl ymgyngoreion ar gronfa ddata'r CDLl<br>Sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwefan y Cyngor<br>Canolfannau Cyswllt y Cyngor<br><br>Bydd swyddogion yn cynnal, fel yr ystyrir yn briodol:<br>Sesiynau galw heibio<br>Arddangosfeydd<br>Ymgysylltu â Chynghorau Cymuned a grwpiau allweddol a nodwyd<br><br>Dogfennau Ymgynghori a ffurflenni sylwadau ar gael ar:<br>Gwefan CDLl 2<br>Copïau caled o'r Strategaeth a Ffefrir ar gael yn<br>y Ganolfan Ddinesig a'r Guildhall<br>Copi o'r Strategaeth a Ffefrir a ffurflenni cynrychiolaeth lle bo'n bosibl ym mhob un o'r 17 llyfrgell yn Abertawe | Bydd y Cyngor yn cofnodi'r holl sylwadau a wneir yn briodol ac yn sicrhau bod copi ar gael cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl i'w archwilio yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe.<br><br>Bydd Gwefan CDLl 2 yn rhoi manylion y sylwadau a dderbyniwyd cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.<br><br>Bydd sylwadau ac ymatebion iddynt yn cael eu hadrodd i'r Aelodau Etholedig<br><br>Bydd yr holl sylwadau ac ymatebion, ynghyd ag unrhyw newidiadau i'r Cynllun Cyn-adneuo ar gael i'r cyhoedd fel rhan o'r Adroddiad Ymgynghori Cychwynnol sy'n cyd-fynd â'r Cynllun Adneuo.<br>Bydd papurau cefndir a thystiolaeth yn cael eu lanlwytho i dudalennau gwe CDLl 2 pan fyddant ar gael.<br><br>Ymgysylltir â'r GYA ar adegau allweddol wrth baratoi CDLl2 | Bydd y Cyngor yn dilyn arfer gorau ac yn ymgynghori ar yr Adroddiad SA Cychwynnol ac Asesiad Sgrinio HRA ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir er y bydd hyn yn cael ei dargedu'n benodol at y Cyrff Ymgynghori Amgylcheddol. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Bydd y Cyngor yn ystyried gweithredu system ryngweithiol ar y we i gofnodi sylwadau yn electronig<br><br>Bydd y Cyngor yn darparu hysbysiad a datganiad o faterion cyn-adneuo yn ystod y cam hwn yn unol â'r Rheoliadau | | |

## Cam 5 Cyflwyno CDLl 2 a dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i'w Harchwilio'n Annibynnol (Rheoliad 22) (Cam Dangosol)

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy'n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'r Cyngor yn cyflwyno CDLl 2 a'r holl dystiolaeth ategol a dogfennau cefndir i LIC a PEDW i'w Harchwilio'n Annibynnol.**<br><br>**Mae'r dogfennau a gyflwynir yn cynnwys:**<br>**Cynllun Adneuo**<br>**SA (ISA), HRA**<br>**CC (gan gynnwys CIS)**<br>**Adroddiad Ymgynghori**<br>**Adroddiad Adolygu** | Amherthnasol – Mae angen cyflwyno CDLl 2 yn unol â Rheoliad 22 y CDLl | Disgwylir cyflwyno CDLl 2 tua mis Chwefror 2027 | Bydd yr holl randdeiliaid (gan gynnwys y sawl sy'n gwneud sylwadau) yn cael eu hysbysu. | Bydd rhanddeiliaid yn cael eu hysbysu trwy:<br>E-bost<br>Gwefan<br>Llythyrau fel y bo'n briodol<br><br>Anfonir copïau o ddogfennau at Lywodraeth Cymru a PEDW yn unol â'r Rheoliadau<br><br>Bydd y Cyngor yn cyhoeddi datganiad ar ei wefan bod y CDLl wedi'i gyflwyno i'w Archwilio a bydd ar gael i'w | Bydd y Cyngor yn cyhoeddi unrhyw ohebiaeth a dderbynnir oddi wrth LIC a'r Arolygydd ar ei wefan.<br><br>Bydd Swyddog Rhaglen wedi'i benodi a fydd yn sefydlu gwefan Archwilio a bydd yn gweithredu fel rhyngwyneb rhwng yr ACLl a'r Arolygydd Cynllunio. | Bydd adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (ISA) yn cael ei gyflwyno yn dangos sut mae'r prosesau asesu wedi llywio cynnwys y Cynllun |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol**<br>**Asesiad o Safleoedd Ymgeisiol**<br>**Copi o sylwadau a wnaed yn briodol a dderbyniwyd yn y cyfnod Adneuo**<br>**Dogfennau a thystiolaeth ategol.**<br><br>**Bydd tîm y CDLl yn hysbysu'r holl randdeiliaid bod CDLl 2 wedi'i gyflwyno i'w Archwilio** | | | | archwilio yn ystod oriau swyddfa arferol yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe.<br><br>Bydd CDLl 2 a'r dogfennau a gyflwynir yn cael eu cyhoeddi ar-lein.<br><br>Bydd copi caled o'r dogfennau ar gael i'w gweld yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe | | |

## Cam 6 Archwilio Cyflwyno CDLl 2 a dogfennau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru a Penderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru i'w Harchwilio'n Annibynnol (Rheoliad 22) (Cam Dangosol)

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy'n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Hysbysiad o Archwiliad Annibynnol.**<br><br>**Rhoi gwybod am yr Arolygydd penodedig i gynnal yr Archwiliad a'r amserlen ar gyfer Cyfarfod Cyn Wrandawiad**<br><br>**Cyhoeddi manylion y Sesiynau Gwrandawiadau a hysbysu'r holl bartïon** | Cynnal Archwiliad Annibynnol o CDLl 2 yn unol â Rheoliadau'r CDLl a chaniatáu mewnbwn rhanddeiliaid i'r sesiynau gwrandawiadau fel sy'n ofynnol gan yr Arolygydd | Mae'n rhaid derbyn hysbysiad o leiaf chwe wythnos cyn dechrau'r sesiwn gwrandawiadau cyntaf.<br><br>Cyfarfod Cyn Wrandawiad amcangyfrifedig Mawrth 2027<br><br>Disgwylir i sesiynau archwilio gan gynnwys cyfarfod cyn | Pob parti â diddordeb (gan gynnwys y sawl sy'n gwneud sylwadau). Bydd cymryd rhan yn y sesiynau gwrandawiadau ar gais yr Arolygydd penodedig.<br><br>Newidiadau Materion sy'n Codi – Bydd yr holl randdeiliaid yn gallu | Hysbysiad ffurfiol yn cael ei roi drwy e-bost i unrhyw berson sydd wedi gwneud sylw (ac heb ei dynnu'nol)<br><br>Bydd yr archwiliad cyhoeddus yn cael ei reoli gan yr Arolygydd a'r Swyddog Rhaglen penodedig.<br><br>Er y bydd yr Arolygydd yn gofyn am gyfranogiad gan randdeiliaid | Bydd y Swyddog Rhaglen yn rheoli gwefan yr Archwiliad a fydd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i bartïon a bydd yn lanlwytho agendâu a datganiadau ar gyfer sesiynau gwrandawiadau. Bydd yr holl ohebiaeth rhwng yr Arolygydd a'r Cyngor yn cael ei lanlwytho i'r wefan. | Gall sylwadau sy'n ymwneud â'r SA (ISA) a wnaed yn briodol ymddangos yn yr Archwiliad.<br><br>Bydd unrhyw newidiadau a wneir ar ôl adneuo (MACau) yn ystod yr Archwiliad neu'r rhai sy'n ofynnol gan yr Arolygydd yn destun asesiad a byddant ar gael ar gyfer ymgynghoriad. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **â diddordeb gan nodi dyddiadau a lleoliad**<br><br>**Nodi meysydd Tir Cyffredin gyda gwrthwynebwyr i ganolbwyntio arnynt yn y sesiynau gwrandawiadau**<br><br>**Paratoi Newidiadau Materion sy'n Codi (MACau) fel y bo'n briodol**<br><br>**Ymgynghori ar MACau** | | gwrandawiad ddechrau tua mis Mawrth 2027 a bydd yn rhedeg tan fis Gorffennaf 2027. | cyfrannu at ymgynghoriad ar unrhyw MAC. | penodol, bydd yr Archwiliad yn agored i unrhyw aelod o'r cyhoedd i fod yn bresennol a gweld y trafodion.<br><br>Bydd Llyfrgell yr Archwiliad ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor ond bydd hefyd ar gael i'w gweld yn lleoliad yr Archwiliad.<br><br>Bydd natur a ffurf y sesiynau gwrandawiadau yn cael eu pennu gan yr Arolygydd a byddant yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. Mae'n debygol y bydd hyn ar ffurf trafodaethau bord gron, gwrandawiadau ffurfiol (os gofynnir amdanynt a'u cytuno gan yr Arolgydd) a chyflwyniadau ysgrifenedig.<br><br>Bydd Newidiadau Materion sy'n Codi yn cael eu hysbysebu'n eang:<br><br>E-byst at yr holl randdeiliaid ar y gronfa ddata<br>Hysbysebu ar y wefan | Bydd y Cyngor yn ymgynghori â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar unrhyw newidiadau ôl-adneuo arfaethedig (MACau). | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Y Wasg a’r Cyfryngau Cymdeithasol<br><br>Dogfennau Ymgynghori a ffurflenni sylwadau ar gael ar: Gwefan CDLl 2 Copi caled yn y Ganolfan Ddinesig a 17 llyfrgell Abertawe | | |

**Cam 7 Cyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd, (Rheoliad 24) (Cam Dangosol)**

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy’n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae’r Arolygydd yn cyflwyno ei adroddiad i’r Cyngor yn manylu ar ganlyniad yr Archwiliad Annibynnol**<br><br>**Yn dilyn gwirio’r ffeithiau gan y Cyngor cyhoeddir Adroddiad yr Arolygydd o fewn 8 wythnos o’i dderbyn**<br><br>**Lle mae’r Arolygydd wedi argymell newidiadau i CDLl 2 mae’r rhain yn** | Amh. | Disgwylir Adroddiad yr Arolygydd erbyn mis Hydref 2027.<br><br>Bydd hwn yn cael ei gyhoeddi gan y Cyngor ar neu cyn mabwysiadu’r CDLl tua mis Rhagfyr 2027. | Bydd yr holl randdeiliaid (gan gynnwys y sawl sy’n gwneud sylwadau) yn cael eu hysbysu. | Bydd Adroddiad yr Arolygydd yn cael ei gyhoeddi ar y wefan a bydd ar gael i’w weld ar ffurf copi caled yn y Ganolfan Ddinesig, Abertawe a lle bo modd, ym mhob un o’r 17 llyfrgell Abertawe. | Bydd Adroddiad yr Arolygydd yn nodi eu canfyddiadau o ran cadernid CDLl 2 gan gynnwys unrhyw newidiadau a argymhellir a’r rhesymau drostynt. | Bydd Adroddiad yr Arolygydd yn nodi eu canfyddiadau ar yr Arfarniad o Gynaliadwyedd (ISA). |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **rhwymo'r Cyngor a rhaid diweddaru CDLl 2 i adlewyrchu'r newidiadau hyn.**<br><br>**Hysbysir pob parti pan fydd Adroddiad yr Arolygydd wedi'i dderbyn a'i gyhoeddi wedi hynny.** | | | | | | |

## Cam 8 Mabwysiadu (Rheoliad 25) (Cam Dangosol)

| BETH<br>Disgrifiad a Chamau Allweddol | PAM<br>Pwrpas yr Ymgysylltiad | PRYD<br>Amserlenni Bras | PWY<br>Pwy sy'n cyfrannu | SUT<br>Ymgysylltu | ADBORTH<br>Adrodd | SA/AAS/ISA<br>Ymgysylltu |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mae'n rhaid cyflwyno CDLl 2 i'r Cyngor i'w gymeradwyo o fewn 8 wythnos i dderbyn Adroddiad yr Arolygydd. Mae'n rhaid i'r Cyngor hefyd roi cyhoeddusrwydd eang i'r ffaith ei fod wedi'i fabwysiadu.**<br><br>**Ar ôl ei fabwysiadu, bydd y Cyngor yn sicrhau bod copïau o CDLl 2, yr Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd a'r Datganiad Mabwysiadu ar gael** | Amh. | Bydd CDLl 2 yn cael ei fabwysiadu 8 wythnos ar ôl derbyn Adroddiad yr Arolygydd. Disgwylir i hyn fod tua mis Rhagfyr 2027<br><br>Mae'n ofynnol i'r Datganiad Ôl-fabwysiadu (o dan y Gyfarwyddeb AAS) gael ei gynhyrchu o fewn 6 wythnos i'r mabwysiadu yn unol ag arfer da | Bydd y Cyngor Llawn yn gwneud y penderfyniad i fabwysiadu CDLl 2 yn ffurfiol.<br><br>Bydd yr holl randdeiliaid (gan gynnwys y sawl sy'n gwneud sylwadau) yn cael eu hysbysu. | Bydd mabwysiadu'r CDLl yn cael ei hysbysebu'n eang drwy E-bost, Gwefan<br>Y Wasg a'r Cyfryngau Cymdeithasol.<br><br>Bydd CDLl 2 mabwysiedig, datganiad mabwysiadu, Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd ar gael i'w harchwilio yng Nghanolfan Ddinesig Abertawe a lle bo modd, yn mhob un o'r 17 o llyfrgell Abertawe.<br><br>Anfonir y datganiad mabwysiadu at unrhyw un sy'n gofyn am gael | Bydd agendâu a chofnodion cyfarfodydd y Cyngor yn cofnodi'r broses wleidyddol.<br><br>Bydd CDLl 2 mabwysiedig a dogfennau cysylltiedig yn cael eu cyhoeddi ar y wefan. | Ar ôl eu mabwysiadu, bydd y Cyngor yn cyhoeddi'r Adroddiadau Monitro Blynyddol statudol erbyn 31 Hydref (oni bai y byddai llai na 12 mis wedi mynd heibio ers mabwysiadu) a fydd yn nodi a yw amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd yn cael eu cyflawni. |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | gwybod am fabwysiadu'r CDLl.<br><br>Bydd 4 copi o'r CDLl a'r datganiad mabwysiadu yn cael eu hanfon at Lywodraeth Cymru | | |

# Atodiad 5: Adolygiad o CIS blaenorol

Yn unol ag arweiniad y Cynlluniau Datblygu, yng Ngham 1 y CC mae'n bwysig gwerthuso'r CIS blaenorol i nodi pa wersi y gellir eu dysgu a sut y gall y CIS newydd adeiladu ar y strategaeth flaenorol neu wella arni.

Ceisiodd y cyngor ymgysylltu â phobl cyn gynted â phosibl yn ystod y broses o baratoi'r cynllun blaenorol. Gan ddefnyddio amrywiaeth o wahanol ddulliau, casglwyd llawer iawn o wybodaeth gan lu o wahanol randdeiliaid. Fodd bynnag, roedd rhai dulliau ymgysylltu yn fwy llwyddiannus nag eraill a chafodd rai ganlyniadau nas rhagwelwyd. At hynny, mae'r cyngor yn cydnabod bod lle i wella mewn rhai meysydd, yn enwedig o ran ymgysylltu â grwpiau nas clywir yn aml.

Ar gyfer y CDLl blaenorol roedd gwybodaeth yn aml yn cael ei dosbarthu ar ffurf print. Roedd dogfennau printiedig yn cael eu hadneuo yn adeiladau'r cyngor i bobl eu darllen a/neu eu cymryd. Dosbarthwyd gwybodaeth hefyd gan ddefnyddio papurau newydd lleol, cylchlythyrau, a thaflenni gyda'r bwriad o gyrraedd cymaint o bobl â phosibl. Fodd bynnag, nid yw'n glir faint o bobl a gafodd yr wybodaeth hon, ac os gwnaethant, a oeddent wedi darllen y dogfennau. Derbyniodd y cyngor gwynion yn enwedig gan fusnesau gan fod rhestrau post yn aml yn esgeuluso eiddo masnachol, felly nid oeddent yn ymwybodol o'r hyn a oedd yn digwydd yn lleol o ran datblygiad posibl a chyfleoedd i ymgysylltu. Roedd argraffu a dosbarthu gwybodaeth yn defnyddio llawer iawn o adnoddau ac nid yw hynny'n cydymffurfio ag uchelgais corfforaethol y Cyngor i ddefnyddio llai o bapur a dod yn fwy cynaliadwy. At hynny, nid yw rhai o'r cyhoeddiadau a ddefnyddiwyd i ddosbarthu gwybodaeth yn bodoli mwyach neu maent wedi symud ar-lein.

Mae'r cyngor yn bwriadu symud tuag at strategaeth sy'n canolbwyntio mwy ar ddulliau digidol, yn enwedig pan ddaw'n fater o gylchredeg gwybodaeth. Symud oddi wrth ddogfennau printiedig yn bennaf, tuag at gyfryngau mwy amrywiol eu ffurf. Un enghraifft bosibl fyddai cynhyrchu fideos byr y gellir eu harddangos ar sgriniau mewn mannau cyhoeddus a'u cyhoeddi ar sianeli cyfryngau cymdeithasol a gwefan y cyngor. Bydd mwy o bwyslais ar gyfryngau gweledol er enghraifft posteri, y gellir eu harddangos mewn mannau cyhoeddus ac yn adeiladau'r cyngor. Y bwriad yma yw codi ymwybyddiaeth o CDLl 2 a ffyrdd y gall pobl gymryd rhan trwy wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch ac atyniadol. Bydd mwy o ymgysylltu yn digwydd ar-lein, yn y gobaith o gynyddu nifer y bobl a all gymryd rhan a dweud eu dweud. Bydd hyn yn golygu gweithio gyda thîm y we i wneud tudalennau'r CDLl mor syml a hawdd i'w llywio â phosibl, gan fod adborth o broses paratoi'r cynllun blaenorol yn crybwyll fod defnyddio'r wefan yn cynnwys gormod o gliciau.

Er gwaethaf y newid digidol hwn, mae'r cyngor yn ymwybodol na fydd hwn yn gweddu i rai rhannau o'r boblogaeth. Er enghraifft, nid oes gan lawer o bobl fynediad i gyfrifiaduron a/neu nid ydynt yn gyfforddus yn defnyddio technoleg. Nid ymgysylltu'n ddigidol yn unig yw'r bwriad, ond ystyried gwahanol ddulliau o ymgysylltu a thargedu'n well o ran sut mae'n ymgysylltu â grwpiau penodol. Gall fersiynau caled o ddogfennau gael eu hadneuo yn adeiladau'r cyngor o hyd, fodd bynnag, gallwn friffio staff y cyngor i helpu i ymgysylltu â phobl am CDLl 2. Mewn lleoedd fel llyfrgelloedd gallwn arddangos canllawiau a gall staff gynorthwyo pobl i

ddefnyddio'r adnoddau ar-lein ar gyfrifiaduron cyhoeddus neu ar eu ffonau clyfar os oes ganddynt un.

Enghraifft dda o ba mor effeithiol y gallai gwybodaeth wedi'i thargedu'n ofalus fod yn fwy effeithiol na dosbarthu dogfennau papur yn eang yw yn ystod yr ymarfer Galw am Safleoedd. Yn flaenorol gosodwyd hysbysiadau safle ar bob safle a gyflwynwyd. Achosodd hyn ddryswch diangen gan fod pobl yn cymryd bod yr hysbysiadau hyn yn geisiadau cynllunio neu'n ddatblygiadau cymeradwy. O ganlyniad, nid oedd llawer o'r ymatebion yn berthnasol i'r cynllun ac eto roedd swyddogion cynllunio yn dal i orfod eu dadansoddi ac ymateb, a oedd yn feichus ar adnoddau. At hynny, fe greodd elyniaeth a thrallod diangen ymhlith poblogaethau lleol yn agos at safleoedd nad oeddent yn mynd i gael eu hystyried. Ar gyfer ymarfer Galw am Safleoedd CDLl 2, caiff rhestr o safleoedd ymgeisiol ei chyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol er gwybodaeth yn unig. Caiff hysbysiadau safle eu harddangos ar gyfer y safleoedd hynny a gynigiwyd fel safleoedd strategol a dyraniadau yn y Strategaeth a Ffefrir a'r Cynllun Adnau fel sy'n briodol fel rhan o ymgynghoriad statudol ar y dogfennau hynny.

Mae meddwl am sut i ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid yn hanfodol i CIS llwyddiannus. Ymatebodd rhai grwpiau ac unigolion nad oeddent yn teimlo eu bod yn rhan ddigonol o'r broses o baratoi'r cynllun blaenorol er gwaethaf ymdrechion ar y cyd i'w cynnwys gan ddefnyddio rhwydweithiau a phartneriaethau sefydledig. Un enghraifft oedd bod rhai cynghorwyr yn teimlo y gellid bod wedi ymgysylltu'n well. Bydd y CIS newydd yn sicrhau yr ymgysylltir ag aelodau etholedig yn gynnar ac yn effeithiol o gam cynnar. Bydd Aelodau Etholedig yn hollbwysig ar gyfer rhannu gwybodaeth am y Cynllun ymhlith eu hetholwyr.

Mae pobl â nodweddion gwarchodedig a grwpiau nas clywir yn aml yn rhanddeiliaid pwysig y gellir eu cynnwys yn fwy effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â'n partneriaid i ddysgu am y ffordd orau o ymgysylltu â grwpiau o'r fath a sut i'w cynnwys yn y broses o baratoi'r cynllun ar adegau priodol. Bydd ymgynghoriad yn sicrhau bod fersiynau dwyieithog o ddogfennau ar gael i wella ymgysylltiad yn Gymraeg, a darperir cyfieithiad Cymraeg ar gyfer yr ymgynghoriad os oes galw amdano. Mae cyfle hefyd i ymgysylltu â phobl mewn ieithoedd eraill drwy o bosibl gyfieithu rhywfaint o wybodaeth ar ffurf taflenni crynhoi ar gamau ymgynghori allweddol mewn ieithoedd eraill a siaredir yn eang yn Abertawe.

Bydd y tîm yn gweithio gyda chydlynydd ymgynghoriad y cyngor i ddatblygu dulliau ymgysylltu effeithiol ar gyfer y camau ymgynghori perthnasol.

# Atodiad 6: Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **Adneuo** | Cam ffurfiol o chwe wythnos lle gall unigolion a sefydliadau gyflwyno sylwadau ar CDLl 2. Yna gall Arolygydd archwilio sylwadau sy'n ymwneud ag a yw'r cynllun yn 'gadarn'. |
| **Adroddiad Adolygu** | Mae'r Adroddiad Adolygu yn rhoi trosolwg o'r materion a ystyriwyd fel rhan o'r broses adolygu lawn ac yn nodi newidiadau y mae'n debygol y bydd eu hangen i CDLl 2, yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae hefyd yn nodi'r math o weithdrefn adolygu i'w dilyn wrth adolygu'r CDLl. |
| **Adroddiad Arfarniad o Gynaliadwyedd (SAR)** | Dogfen y mae'n ofynnol ei chynhyrchu fel rhan o'r broses Arfarniad o Gynaliadwyedd i ddisgrifio ac arfarnu'r effeithiau sylweddol tebygol ar gynaliadwyedd o weithredu CDLl, sy'n bodloni gofynion yr Adroddiad Amgylcheddol o dan y Gyfarwyddeb AAS. Mae Adran 62(6) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLl baratoi adroddiad ar ganfyddiadau SA y CDLl. Mae'n rhan annatod o'r broses o lunio cynllun datblygu. |
| **Adroddiad Monitro Blynyddol (AMR)** | Adroddiad blynyddol i fonitro effeithiolrwydd CDLl 2 ac yn y pen draw mae'n penderfynu a oes angen unrhyw ddiwygiadau i'r Cynllun. Mae'n asesu i ba raddau y mae strategaeth ac amcanion CDLl 2 yn cael eu cyflawni ac a yw polisïau CDLl 2 yn gweithredu'n effeithiol. |
| **Adroddiad Ymgynghori** | Mae Adroddiad Ymgynghori yn un o'r dogfennau y mae angen eu cyflwyno i'w harchwilio'n annibynnol. Mae hefyd angen adroddiad ymgynghori cychwynnol ar gyfer y cam cyn-adneuo. |
| **Adroddiad yr Arolygydd** | Yr Adroddiad a baratowyd gan Arolygydd annibynnol sy'n archwilio CDLl 2. Mae Adroddiad yr Arolygydd yn cynnwys argymhellion ar gynnwys y CDLl 2 terfynol ac mae'n rhwymo'r Cyngor. Mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu CDLl 2 yn y modd a gyfarwyddir gan yr Arolygydd. |
| **Amcan** | Datganiad o'r hyn a fwriedir, gan nodi'r cyfeiriad a ddymunir ar gyfer newid tueddiadau. |
| **Amserlen** | Yn nodi'r dyddiadau erbyn pryd y disgwylir cwblhau camau a phrosesau allweddol paratoi CDLl 2. Mae'r rhain yn ddiffiniol ar gyfer camau hyd at adneuo CDLl 2 ac yn ddangosol ar gyfer y camau sy'n weddill ar ôl hynny. |
| **Archwiliad** | Mae'r archwiliad yn cynnwys archwiliad cyhoeddus o'r CDLl Adneuo Newydd, y sylwadau Adneuo a wnaed, yr adroddiad ymgynghori, y sail dystiolaeth/dogfennau cefndir a'r Adroddiad Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig. Gwneir hyn gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran Llywodraeth Cymru. |
| **Arfarniad o Gynaliadwyedd (ISA)** | Offeryn ar gyfer arfarnu polisïau, gan gynnwys CDLlau, i sicrhau eu bod yn adlewyrchu amcanion datblygu cynaliadwy (h.y. ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd). Mae Adran 62(6) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob ACLl gynnal SA o'u Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r math hwn o arfarniad cynaliadwyedd yn ymgorffori'n llawn ofynion y Gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol. |

| | |
|---|---|
| **Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS)** | Term generig a ddefnyddir yn rhyngwladol i ddisgrifio asesiad amgylcheddol fel y'i cymhwysir i bolisïau, cynlluniau a rhaglenni. Mae Cyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol Ewropeaidd (2001/42/EC) yn gofyn am "asesiad amgylcheddol o rai cynlluniau a rhaglenni, gan gynnwys y rhai ym maes cynllunio a defnydd tir". |
| **Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA)** | Mae Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (HRA) yn ymwneud ag asesiad o effeithiau cynllun (neu brosiect) yn erbyn amcanion cadwraeth natur safleoedd dynodedig Ewropeaidd ar gyfer unrhyw effeithiau sylweddol tebygol. Mae HRA hefyd yn canfod a fyddai'r cynllun arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar gyfanrwydd y safle. |
| **Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLl)** | Yn achos Abertawe, Cyngor Dinas a Sir Abertawe yw hwn. |
| **Blaenlwytho** | Cynnwys y gymuned a meithrin consensws ar gamau cynnar paratoi'r cynllun |
| **Canllawiau Cynllunio Atodol (SPG)** | Darparu arweiniad manylach neu safle-benodol ar gymhwyso Polisïau CDLl 2. Maent yn darparu gwybodaeth atodol mewn perthynas â'r polisïau mewn CDLl. Nid yw SPG yn rhan o CDLl 2 ac nid yw'n destun archwiliad annibynnol. |
| **Cwmpasu** | Y broses o benderfynu ar gwmpas a lefel y manylder ar gyfer gwerthusiad integredig o gynaliadwyedd (SA), gan gynnwys yr effeithiau cynaliadwyedd a'r opsiynau y mae angen eu hystyried, y dulliau asesu i'w defnyddio a strwythur a chynnwys yr Adroddiad SA. |
| **Cyflwyno** | Pan fydd CDLl 2, ISAR a'r HRA yn cael eu cyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w harchwilio'n annibynnol gan Arolygydd a benodwyd gan Lywodraeth Cymru. |
| **Cyfranogiad** | Proses yn hytrach nag un digwyddiad sy'n rhoi cyfle i ymgysylltu'n uniongyrchol â'r gymuned a rhanddeiliaid i gyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau. |
| **Cyngor** | Cyngor Dinas a Sir Abertawe. |
| **Cyngor Dinas a Sir Abertawe (CCS)** | Dyma enw'r Awdurdod Cynllunio Lleol sy'n paratoi CDLl 2. |
| **Cymuned** | Pobl sy'n byw mewn ardal ddaearyddol ddiffiniedig, neu sy'n rhannu diddordebau eraill ac felly'n ffurfio cymunedau buddiant. |

| | |
|---|---|
| **Cyn-adneuo** | Camau paratoi ac ymgynghori ar CDLl 2 cyn i'r Cynllun Adneuo gael ei gwblhau a'i gymeradwyo gan y Cyngor. |
| **Cynllun Adneuo** | Dyma ddrafft llawn o CDLl 2 sy'n mynd trwy gyfnod ymgynghori ffurfiol cyn iddo gael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w archwilio'n gyhoeddus. |
| **Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS)** | Mae'r Cynllun Cynnwys Cymunedau yn rhan o'r Cytundeb Cyflawni. Mae'n amlinellu'r egwyddorion ymgysylltu ac yn rhoi manylion am sut y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cynnwys cymunedau a rhanddeiliaid (gan gynnwys busnesau a datblygwyr) wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. |
| **Cynllun Datblygu Lleol (CDLl)** | Cynllun defnydd tir sy'n cynnwys gweledigaeth, strategaeth, polisïau ardal gyfan ar gyfer mathau o ddatblygiadau, dyraniadau tir, a pholisïau a chynigion ar gyfer meysydd allweddol o newid a gwarchodaeth. Dangosir dyraniadau a rhai polisïau yn ddaearyddol ar y Map Cynigion sy'n rhan o'r Cynllun. Mae'r CDLl yn gynllun datblygu statudol y mae'n ofynnol i bob ardal awdurdod cynllunio lleol ei gynhyrchu yng Nghymru. |
| **Cynllun Datblygu Strategol (SDP)** | Offeryn ar gyfer cynllunio rhanbarthol yw Cynllun Datblygu Strategol i ymdrin â materion trawsffiniol megis tai a thrafnidiaeth. Bydd yn cael ei baratoi gan Banel Cynllunio Strategol ar draws rhanbarth. Mae'n rhaid i ACLlau ystyried y SDP wrth ddatblygu eu CDLlau. |
| **Cynllun Mabwysiedig** | Fersiwn derfynol CDLl 2. |
| **Cynnwys** | Term generig yn ymwneud ag ymglymiad cymunedol sy'n cynnwys cyfranogiad a thechnegau ymgynghori. |
| **Cytundeb Cyflawni (CC)** | Dogfen yn cynnwys amserlen yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer paratoi Cynllun Datblygu Lleol, ynghyd â'i Gynllun Cynnwys Cymunedau, a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru i'w chytuno. |
| **Cytundeb Cyflawni Diwygiedig** | Cytundeb cyflawni wedi'i ddiweddaru sy'n adlewyrchu diwygiadau i'r amserlen a wnaed gan yr awdurdod lleol. |
| **Dangosydd** | Mesur o newidynnau dros amser, a ddefnyddir yn aml i fesur cynnydd wrth gyflawni amcanion, targedau a pholisïau. |
| **Datganiadau i'r Wasg** | Anfonir i'r cyfryngau Cymreig, gan gynnwys papurau newydd, gorsafoedd newyddion radio a theledu fel y bo'n briodol. Gall y cyfryngau ddewis peidio ag argraffu na darlledu eitem. |
| **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** | Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus, megis awdurdodau lleol, roi cynaliadwyedd hirdymor ar flaen eu meddwl er mwyn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl yng Nghymru. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol weithio tuag at y saith nod llesiant a gweithredu'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf. |
| **Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC)** | Bydd y FfDC yn nodi fframwaith defnydd tir 20 mlynedd i Gymru a bydd yn disodli Cynllun Gofodol presennol Cymru. Mae Cyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru wedi dechrau gweithio ar y FfDC. |

| | |
|---|---|
| **Grwpiau Ymgysylltu Aelodau (GYA):** | Gweithgor trawsbleidiol o Gynghorwyr sy'n cael ei gynnull i ddarparu cyfleoedd i ganolbwyntio'n gyfan gwbl ar faterion sy'n ymwneud â CDLl2. Fe gynlluniwyd y GYA i hwyluso ymgysylltiad effeithiol rhwng aelodau a swyddogion ar wahanol gamau o baratoi'r cynllun. |
| **Gweithdy** | Lle mae'r cyhoedd yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dadleuon grŵp ac ymarferion ymarferol gydag 'allbwn' ysgrifenedig neu luniadol. |
| **Gwnaed yn briodol** | Sylwadau ynghych y cynllun datblygu a wneir yn y modd cywir ac o fewn y cyfnod ymgynghori penodedig. |
| **Llinell sylfaen** | Disgrifiad o gyflwr presennol ardal. |
| **Mabwysiadu** | Cam olaf paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol lle daw CDLl 2 yn gynllun datblygu statudol ar gyfer yr ardal y mae'n ei chwmpasu. |
| **Meithrin Consenswsl** | Proses o ddeialog gyda'r gymuned a phartïon eraill â diddordeb i ddeall safbwyntiau perthnasol ac i geisio cytundeb lle bo modd. |
| **Partïon â Diddordeb** | Unrhyw berson, grŵp, sefydliad neu gwmni sydd am fod yn rhan o baratoi CDLl 2. |
| **Partneriaid** | Adrannau awdurdodau lleol eraill a chyrff statudol lle bydd CDLl 2 yn helpu i gyflawni rhai o amcanion eu strategaethau. Gellir disgwyl i bartneriaid gyfrannu at lunio rhannau perthnasol o'r Cynllun. |
| **Penderfyniodau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru** | Gorff annibynnol a fydd yn gyfrifol am archwilio CDLl 2 yn ffurfiol |
| **Polisi Cynllunio Cymru (PPW)** | Mae canllawiau polisi cynllunio ar gyfer Cymru a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru wedi'u nodi yn y ddogfen hon |
| **Profion Cadernid** | Er mwyn mabwysiadu CDLl 2, mae'n rhaid i'r Arolygydd Cynllunio benderfynu ei fod yn 'gadarn'. Mae'r Profion Cadernid wedi'u nodi yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3, Mawrth 2020). Mae tri phrawf i wneud y dyfarniad hwnnw mewn perthynas â'r cynllun yn ei gyfanrwydd. Mae fframwaith ar gyfer asesu cadernid CDLlau wedi'i ddatblygu gan yr Arolygiaeth Gynllunio. |
| **Rhanddeiliaid** | Pobl y mae CDLl 2 (a/neu Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig/Asesiad Amgylcheddol Strategol) yn effeithio'n uniongyrchol ar eu buddiannau ac y mae eu cyfranogiad fel rheol yn digwydd trwy gyrff cynrychioliadol. |
| **Rheoleiddio** | Mae'r Rheoliadau wedi'u nodi yn Offerynnau Statudol Cymru. Maent yn darparu'r fframwaith ar gyfer paratoi CDLl 2. |
| **Safle Ymgeisiol** | Safle a enwebir gan unigolyn sydd â diddordeb mewn tir (h.y. tirfeddiannwr, datblygwr, asiant neu aelod o'r cyhoedd) i'w ystyried ar gyfer ei gynnwys yn y CDLl. Bydd pob Safle Ymgeisiol yn cael ei asesu i weld a yw'n addas i'w gynnwys fel dyraniadau posibl. |
| **Sail Dystiolaeth** | Gwybodaeth a data sy'n darparu'r sail ar gyfer paratoi gweledigaeth, amcanion, polisïau a chynigion CDLl 2 ac sy'n cyfiawnhau cadernid dull polisi'r CDLl. |
| **Strategaeth a Ffefrir** | Mae hon yn nodi'r cyfeiriad strategol bras ar gyfer CDLl 2. Mae hyn yn cynnwys y lefel twf a ffafrir ynghyd â'r strategaeth ofodol ar gyfer dosbarthu'r twf. Mae hefyd yn cynnwys gweledigaeth, materion ac amcanion y Cynllun. |
| **Sylwadau** | Sylwadau a dderbyniwyd mewn perthynas â CDLl 2, naill ai o blaid neu yn erbyn. |
| **Ymgynghori** | Proses ffurfiol lle gwahoddir sylwadau ar bwnc penodol neu ddogfen ddrafft fel arfer o fewn cyfnod penodol o amser. |

| | |
|---|---|
| **Ymgysylltu** | Proses ragweithiol sy’n ceisio annog cyfranogiad y gymuned a grwpiau eraill yn y broses gwneud penderfyniadau. |
| **Ystafell Ymgysylltu Rithwir** | Arddangosfa ar-lein (ar gael yn ddwyieithog) sy'n hwyluso ymgynghoriad rhyngweithiol ar gyfer gwahanol gamau CDLl2. |

**Atodiad 7 – Llythyr Cytundeb Llywodraeth Cymru - Cytundeb Cyflenwi Diwygiedig**

**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1495798

Tom Evans
Arweinydd y Tîm Cynllunio Strategol
Adran Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas
Cyngor
Abertawe
Y
Ganolfan
Ddinesig
Heol Ystumllwynarth
Abertawe
SA1 3SN

Annwyl Tom,

03 Chwefror 2025

**Cyngor Dinas Abertawe: Cynllun Newydd Cyntaf y Cytundeb Cyflawni Diwygiedig**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd)**

Diolch am eich e-bost ar 31 Ionawr yn gofyn am gymeradwyaeth i'ch Cytundeb Cyflawni diwygiedig ar gyfer eich Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) newydd yn dilyn cadarnhad drwy benderfyniad y Cyngor ar 30 Ionawr. Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i gadarnhad ffurfiol y Cytundeb Cyflawni gan y Cyngor. Daw'r cais Cytundeb Cyflawni hwn o ganlyniad i'ch awdurdod yn mynd y tu hwnt i'r llithriant y cytunwyd arno ym mhroses paratoi'r cynllun, fel y nodir yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, ar gyfer cynllun newydd sy'n cwmpasu'r cyfnod 2023-2038.

Mae paratoi CDLl yn ddyletswydd statudol ar bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru. Mae bod â chynllun datblygu cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 1 (paragraff 2.2.2) ac Atodiad 1 y Cytundeb Cyflawni diwygiedig. Mae'r amserlen a nodir yn y Cytundeb Cyflawni diwygiedig yn cyd-fynd â'r

gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3), gan gydnabod bod gan eich awdurdod gynllun a fabwysiadwyd ar waith eisoes wedi'i ategu gan nifer o ddogfennau tystiolaeth.

Planning Directorate •Cathays Park • Cardiff • CF10 3NQ Cyfarwyddiaeth Cynllunio• Parc Cathays • Caerdydd • CF10 3NQ
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn
correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding. gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.


Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS). Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos 'cydymffurfiaeth gyffredinol' â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyngor Dinas Abertawe i baratoi eich cynllun newydd. Mae eich Cytundeb Cyflawni diwygiedig a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriadau pob cam y CDLl (yn Atodiad 1) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol o fis Rhagfyr 2027.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 1 fel y darperir ar ei chyfer gan Adran 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 9 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2005 (fel y'u diwygiwyd).

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i'r cyhoedd yn unol â'r gofynion a nodir yn Rheoliad 10.

Yn gywir,



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**